



Prifysgol Abertawe
Swansea University

PROSIECT

**myfyrwyr yn y
diwydiant rhyw**

CRYNODEB O'R YMCHWIL

AWDURONYR YMCHWIL:

Dr Tracey Sagar, Debbie Jones, Dr Katrien Symons a Jo Bowring

Mawrth 2015



**Centre for Criminal Justice
and Criminology**
Swansea University | Prifysgol Abertawe



**ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED**

Prosiect Myfyrwyr yn y Diwydiant Rhyw

www.thestudentsexworkproject.co.uk

Cyswllt

Tracey Sagar: t.sagar@swansea.ac.uk

Debbie Jones: deborah.a.jones@swansea.ac.uk

'Be 'dych chi'n mynd i archebu?'

'Efallai gaf i salad'

**'Mae mynd i McDonalds a chael salad fel
mynd at butain i gael cwtsh!'**



Felly chefais i mo'r salad. Cefais fyrgyr. Fe ddylwn i fod wedi cael salad mewn gwirionedd, oherwydd allai hi ddim fod yn fwy anghywir. Rydw i wedi bod yn butain ers pedair blynedd bellach. Rwyf wedi colli cyfrif ar y nifer o weithiau mae dynion wedi curo ar fy nrws, ddim eisiau rhyw. Mae dynion wedi ymweld â fi am eu bod eisiau holi cwestiynau ynglŷn â sut y dylent fod gyda'u cariad cyntaf; mae dynion wedi ymweld â fi oherwydd eu bod yn unig. Ac mae rhai hyd yn oed wedi dod am eu bod eisiau cwtsh. Buaswn wedi cytuno â'r dywediad hwn nes i mi fod yn butain. A dyna yw'r pwynt, unwaith eich bod yn butain, does dim ots am unrhyw beth arall. Does dim ots fy mod i'n fyfyrwraig. Nid yw'n cyfrif fy mod i'n gwirfoddoli bob wythnos. Nid oes ots mai'r unig reswm fy mod i'n butain yw er mwyn gallu fforddio astudio, fel y byddaf ymhen ychydig o flynyddoedd, yn gymwys i'ch helpu pan fyddwch chi angen hynny. Yr hyn rwyf wedi dod i sylweddoli yw, pan fyddwch chi'n butain; dyna i gyd ydych chi - putain. Nid yw pobl yn deall faint o sgiliau eraill sydd ynghlwm mewn bod 'dim ond yn butain' Rwyf wedi cael dynion yn llefain yn fy nhŷ ynglŷn â gwahanol broblemau yn eu bywydau. Rwyf wedi cael dyn yn siarad â fi ynglŷn â'r cywilydd o gael un o'i geilliau wedi ei thynnu i fwrdd oherwydd cancr. Mae nifer fawr o ddynion wedi dweud pethau wrthyf i oedd yn gorffen â 'dydw i erioed wedi dweud hyn wrth unrhyw un o'r blaen'. Felly, mewn gwirionedd, mae cryn lawer mwy i fod yn butain na chael rhyw gyda rhywun. Rwyf yn fwy na dim ond putain. Fy enw yw Holly. Rwyf yn fyfyrwraig. Rwyf yn hoffi pobi, gwirfoddoli, rhedeg, ac yn wir yr holl bethau eraill mae pobl sydd â swyddi normal yn hoffi eu gwneud.



(Holly - Aelod o'r Prosiect)

CYDNABYDDIAETH

Mae Prosiect Myfyrwyr yn y Diwydiant Rhyw yn brosiect tair blynedd dan arweiniad Prifysgol Abertawe mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Terrence Higgins, Prifysgol De Cymru, Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Ariennir y prosiect gan Gronfa Flaengarwch y Loteri Fawr; rydym yn ddiolchgar iawn i'r Loteri Fawr am ariannu'r prosiect hwn.

Cynhaliodd y prosiect ymchwil eang, yn ogystal â darparu gwasanaethau e-iechyd a chefnogaeth i fyfyrwyr sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw. Ynghyd â hyn, darparodd y prosiect wybodaeth am iechyd rhywiol i boblogaeth myfyrwyr yn gyffredinol. I'r perwyl hwn, mae'r prosiect blaengar yma wedi gwneud cyfraniad pwysig at gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o fyfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw, yng Nghymru ac yng ngweddill y Deyrnas Unedig, wrth ddarparu cymorth a gwybodaeth hanfodol i fyfyrwyr ar yr un pryd.

Roedd elfen darpariaeth o wasanaeth y prosiect yn cynnwys gwybodaeth am iechyd rhywiol ar-lein, fforwm ar-lein ar gyfer aelodau o brosiect myfyrwyr yn y diwydiant rhyw, cefnogaeth gwe-gyrhaeddiad, yn ogystal â chwmsela un i un ar gyfer aelodau o'r prosiect sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosib heb:

- Wybodaeth arbenigol Ymddiriedolaeth Terrence Higgins mewn estyn allan at bobl ifanc ar faterion iechyd rhywiol pwysig.
- Cymorth ein gwirfoddolwyr anhygoel a aeth ati i dderbyn hyfforddiant dwys er mwyn eu galluogi i ddarparu cefnogaeth dros-y-we gyda'r fath lefel o ystyriaeth a chydymdeimlad.
- Arbenigedd rhywolegydd y prosiect, Sam Geuens, a ddarparodd gymorth i aelodau'r prosiect drwy ddarparu chwmsela un i un lle bo hynny'n briodol neu'n angenrheidiol.

Hoffem ddiolch i chi i gyd am eich brwdfrydedd, ymroddiad, gofal a gwaith caled.

Ni fyddai strategaeth ymchwil y prosiect wedi bod yn bosib heb y 6,773 o fyfyrwyr a dreuliodd amser yn cwblhau ein holiadur eithriadol o hir, ac yn arbennig y myfyrwyr hynny a rannodd eu barn a'u profiadau â ni ynglŷn â'u gwaith yn y diwydiant rhyw. Diolch i chi i gyd.

Rydym hefyd yn ddiolchgar i'n saith ymchwilydd ymysg cyfoedion a ymgwymerodd ag amrywiaeth o dasgau ymchwil o fewn y prosiect - diolch i bob un ohonynt am eu gwledigaeth, eu gwaith caled a'u hymrwymiad i'r prosiect.

Mae llwyddiant y Prosiect Myfyrwyr yn y Diwydiant Rhyw wedi bod o ganlyniad i'r holl unigolion a dreuliodd eu hamser gwerthfawr yn cyfrannu at y prosiect. Gydol y prosiect, rydym wedi bod yn eithriadol o ffodus i dderbyn cefnogaeth gan dros 60 o wirfoddolwyr sydd wedi ein helpu mewn cynifer o ffyrdd, ond efallai'r fwy arwyddocaol, mewn marchnata'r prosiect, cynllunio'r wefan, cynorthwyo gyda chefnogaeth dros-y-we (fel y nodwyd eisoes), ac estyn allan at fyfyrwyr i hyrwyddo'r prosiect yn Ffeiriau'r Glas mewn Prifysgolion ledled Cymru. Diolch un ac oll.

Rydym hefyd wedi cael cefnogaeth gan unigolion, asiantaethau a darparwyr gwasanaethau allweddol, sydd wedi gweithio'n glòs â'r prosiect dros y tair blynedd diwethaf. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r ymrwymiad parhaus i'r prosiect gan y rheiny a fynychodd gyfarfodydd blynyddol grŵp polisi'r prosiect, gan rannu eu profiadau a'n cynorthwyo i ddatblygu canllawiau a pheynnau hyfforddiant. Hoffem yn arbennig ddiolch o galon i John Cowley am ei gefnogaeth ddiffino i'n hymdrechion.

Hoffem hefyd ddiolch i werthuswyr allanol y prosiect, Dr Teela Sanders a Rosie Campbell, sydd wedi cynnal gwerthusiad parhaus o'r prosiect a rhannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd â ni ar hyd y daith.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth a fydd yn arbennig o werthfawr i ddarparwyr gwasanaethau, mudiadau rhanddeiliaid a gweithwyr rheng flaen Addysg Uwch, yn ogystal â llunwyr polisi.

TÎM PROSIECT MYFYRWYR YN Y DIWYDIANT RHYW

Ymchwilwyr o blith Cyfoedion. Roedd Ymchwil Gweithredol Cyfranogol wrth galon y prosiect hwn. Fel sylfaenwyr y prosiect, roedd Dr Tracey Sagar a Debbie Jones eisiau sicrhau bod lleisiau myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw nid yn unig yn cael eu cynrychioli yng ngwaith y prosiect, ond bod myfyrwyr sy'n ymwneud â'r diwydiant yn cael cyfle i fod yn rhan o dîm y prosiect, er mwyn llywio a chynllunio ei waith. Hyfforddwyd saith o fyfyrwyr oedd yn ymwneud â'r diwydiant rhyw mewn sgiliau ymchwil, ac aethant ati i weithredu fel ymchwilwyr ymhlith cyfoedion ar gyfer y prosiect. Er na chaiff ymchwilwyr ymhlith cyfoedion eu henwi'n unigol yma (mae'r prosiect wedi ymrwymo i sicrhau bod y cyfranogwyr yn ddiennw) rydym yn cydnabod eu cyfraniad eithriadol i'r prosiect hwn.

Roedd **Dr Tracey Sagar**, Athro Cysylltiol yng Nghanolfan Gyfiawnder Troseddol a Throseddeg ym Mhrifysgol Abertawe yn gyfrifol am strategaeth blaengarwch ac ymgysylltiad y prosiect, ynghyd â darparu cyfeiriad ac arbenigedd strategol i'r ymchwil fel Prif Ymchwilydd.

Debbie Jones, Darlithydd ac Uwch Ymchwilydd yng Nghanolfan Gyfiawnder Troseddol a Throseddeg ym Mhrifysgol Abertawe oedd yn gyfrifol am arwain ar ddatblygu fframwaith methodolegol blaengar y prosiect, ynghyd â rheoli pob elfen o'r prosiect.

Jo Bowring, Cynorthwy-ydd y Prosiect gydag Ymddiriedolaeth Terrence Higgins, arweiniodd y gwirfoddoli ymhlith myfyrwyr, gan ddarparu gwybodaeth iechyd rhywiol ar gyfer y wefan. Hi hefyd ddatblygodd y protocol a'r amddiffyniadau gwe-gyrhaeddiad, yn ogystal ag arwain strategaeth gyfathrebu'r prosiect.

Ymunodd **Dr Katrien Symons** â'r prosiect yng Ngorffennaf 2014. Fel Cynorthwy-ydd Ymchwil y prosiect, bu Katrien yn dadansoddi data, a chynorthwyodd gyda dosbarthu canlyniadau'r ymchwil.

Gweithiodd **Dr Jacky Tyrrie** fel Cynorthwy-ydd Ymchwil ar gyfer y prosiect rhwng Awst 2012 ac Awst 2014. Tra bu gyda'r prosiect, bu Jacky'n gyfrifol am ddsbarthu'r arolwg myfyrwyr a dadansoddi'r canlyniadau cychwynnol.

Bu **Dr Billie Lister a Gemma Morgan** ar seconddiad i'r prosiect o Ymddiriedolaeth Terrence Higgins fel Cynorthwy-wyr y Prosiect am rai misoedd. Roedd eu rôl yn cynnwys cydlynu gwirfoddoli myfyrwyr a chefnogaeth we-gyrhaeddiad. Gweithiodd **Emma Brooks** ar gasglu a dadansoddiad cynnar o'r data ansoddol, a darparodd cymorth drwy estyn allan-dros-y-we. Darparodd **Lorraine Galatowicz** gyngor gwerthfawr ar ddiogelwch a chefnogaeth i aelodau'r prosiect.

Mae **Sam Geuens** yn rhywolegydd clinigol sy'n cyfuno gwaith cwnsela â darlithio yng Ngholeg Prifysgol PXL yng Ngwlad Belg. Daeth Sam ag arbenigedd mewn cefnogaeth dros-y-we a chwmsela clinigol i'r prosiect, ynghyd â datblygiad hyfforddiant a strwythurau ar gyfer cefnogaeth ar-lein ar gyfer asiantaethau eraill sy'n rhanddeiliaid.

Gweithiodd **Yr Athro Chris Morris** gyda thîm ymchwil y prosiect a chynhaliodd gyfweiliadau â myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw. Llwyddodd i drosglwyddo tystiolaeth gan fyfyrwyr i ffilm mewn ffordd greadigol, ac arweiniodd ar gynhyrchu 'Fog of Sex' sef ffilm ddogfen gymdeithasol sy'n bwrw goleuni ar brofiadau myfyrwyr yn y diwydiant rhyw; mae'r ffilm hefyd yn darparu arf hyfforddiant gwerthfawr ar gyfer asiantaethau sy'n rhanddeiliaid.

Darparodd **Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru** gefnogaeth werthfawr mewn ymgysylltu â myfyrwyr ledled Cymru a'r DU. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r Undeb am gynorthwyo'r prosiect gyda chyfieithu i'r Gymraeg, a hoffem ddiolch i'r holl gynrychiolwyr a weithiodd yn glôs â'r prosiect i sicrhau ei lwyddiant.

Darparodd **Yr Athro Roger Tarling** arbenigedd a chynghor parthed elfennau mesurol y prosiect a chyfrannodd **Dr Ron Roberts** at strategaeth gyhoeddi'r prosiect.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (Clinig Iechyd Rhywiol Integredig), Darparodd **Stewart Attridge a Sandra Smith**, gymorth a chefnogaeth o ran iechyd rhywiol i'r prosiect.

Roedd mynd i'r afael â stereoteipio a stigma tuag at broses o gynhwysiad cymdeithasol ar gyfer myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw yn her allweddol i'r Prosiect Myfyrwyr yn y Diwydiant Rhyw.

Yn Ffeiriau'r Glas olaf y prosiect ledled Cymru ym Medi/Hydref 2014, aeth tîm y prosiect ati i adborthi rhai o ganfyddiadau allweddol yr ymchwil i fyfyrwyr. Aeth 1687 o fyfyrwyr ati i gwblhau holiadur byr:

86% Nododd 86% eu bod yn fwy ymwybodol o'r stigma a wynebir gan weithwyr rhyw.

90% Dywedodd 90% y byddent yn fwy tebygol o herio stigma yn erbyn gweithwyr rhyw.

Rydym yn gobeithio y bydd canfyddiadau'r Prosiect Myfyrwyr yn y Diwydiant Rhyw a ddogfennir yn yr adroddiad hwn yn mynd â'r broses hon ymhellach fyth.

CRYNODEB	6	4. CANFYDDIADAU AR AMCAN 2YRYMCHWIL: YMATEBION ADDYSG UWCH A CHANFYDDIADAU STAFF	29
1. RHAGARWEINIAD	9	4.1 Polisiâu Addysg Uwch a myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw	
1.1 Diffiniad o dermau		4.2 Dealltwriaeth staff o'r gyfraith a rheoliadau	
1.2 Symbyliad ar gyfer y Prosiect		4.3 Datgelu ymgysylltiad myfyrwyr yn y diwydiant rhyw	
1.3 Amcanion y Prosiect		4.4 Ymwybyddiaeth o anghenion myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw ac ymatebion i ddatgelu	
1.3.1 Y ddarpariaeth o wasanaethau a chodi ymwybyddiaeth		4.4.1 Ymwybyddiaeth o anghenion myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw a gwasanaethau cymorth priodol	
1.3.2 Amcanion yr ymchwil		4.4.2 Ymatebion i ddatgelu gan fyfyrwyr	
1.4 Strwythur yr adroddiad		4.5 Canfyddiadau o'r angen am bolisi, arweiniad a hyfforddiant	
		4.5.1 Angen am bolisi, gwybodaeth a chefnogaeth	
		4.5.2 Angen am arweiniad a hyfforddiant	
2. METHODOLEG	13	4.6 Crynodeb o ganfyddiadau allweddol	
2.1 Data a ddefnyddiwyd i gyrraedd amcan 1 yr ymchwil		5. TRAFODAETH	35
2.1.1 Yr Arolwg o Fyfirwyr yn y Diwydiant Rhyw		5.1 Nid yw gwaith rhyw yn swydd sy' n gyfyngedig i un rhywedd	
2.1.2 Casglu data ansoddol gyda myfyrwyr sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw.		5.2 Mae mwy i waith rhyw nag un profiad	
2.2 Data a ddefnyddiwyd i gyrraedd amcan 2 yr ymchwil		5.3 Mae myfyrwyr sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw yn cael gafael ar wasanaethau cymorth	
2.2.1 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth		5.4 Mae diogelwch yn fater o ofid i rai gweithwyr rhyw	
2.2.2 Astudiaeth o achos mewn prifysgol		5.5 Mae myfyrwyr sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw yn wynebu stigma a rhagfarn o fewn cymdeithas	
2.2.3 Cyfweiliadau personol â staff y brifysgol		6. ARGYMHELLION ALLWEDDOL	39
2.3 Dadansoddi data		CYFEIRNODAU	40
2.4 Cymeradwyaeth foeseol			
2.5 Cydsyniad ac anhysbysrwydd			
3. CANFYDDIADAU AR AMCAN 1YRYMCHWIL: YMGYSYLLTIAD MYFYRWYR Â'R DIWYDIANT RHYW A'R PROFIADAU MAENT WEDI BYW DRWYDDYNT	17		
3.1 Ymgysylltiad gwirioneddol ac ystyriaethol o'r diwydiant rhyw			
3.2 Amllder cyfranogiad ac anawsterau mewn gadael y diwydiant rhyw			
3.3 Ymagweddiad myfyrwyr tuag at y diwydiant rhyw			
3.4 Cymhelliannau myfyrwyr dros weithio yn y diwydiant rhyw			
3.5 Materion diogelwch ac agweddau negyddol o wneud gwaith rhyw			
3.6 Agweddau cadarnhaol o wneud gwaith rhyw			
3.7 Anghenion cymorth myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw			
3.8 Crynodeb o ganfyddiadau allweddol			

RHAGARWEINIAD

Cynhaliwyd y Prosiect Myfyrwyr yn y Diwydiant Rhyw dros gyfnod o dair blynedd (Mehefin 2012 - Mehefin 2015). Daeth y prosiect â phartneriaid allweddol at ei gilydd, yn asiantaethau a mudiadau, i weithio gyda myfyrwyr sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw er mwyn gwella dealltwriaeth o ymgysylltiad myfyrwyr â'r diwydiant hwn, ynghyd â datblygu e-wasanaethau iechyd ar gyfer myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw. Hefyd canllawiau a hyfforddiant ar gyfer Addysg Uwch (AU) a rhanddeiliaid allanol lle bo hynny'n briodol. Yn ogystal â hyn, wrth fynd ati i estyn allan at fyfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw, roedd y prosiect hefyd yn targedu poblogaeth y myfyrwyr yn gyffredinol, gyda'r nod o'u darparu â gwybodaeth am iechyd rhywiol. Felly, roedd llawer mwy i'r Prosiect Myfyrwyr yn y Diwydiant Rhyw na mynd ati i gasglu gwybodaeth newydd.

Mae'r adroddiad hwn, serch hynny, yn canolbwyntio ar **elfen ymchwil** y prosiect yn unig. Rydym yn rhagweld y bydd profiadau'r prosiect o ran y ddarpariaeth o wasanaethu'n cael eu cynnwys mewn pecynnau arweiniad a hyfforddiant yn y dyfodol.

Roedd i'r prosiect **ddau amcan allweddol o ran ymchwil**:

1. Creu gwybodaeth o'r newydd ar fyfyrwyr yn y diwydiant rhyw ar draws Cymru'n benodol a'r DU yn gyffredinol. Roedd gennym ddiddordeb arbennig mewn canfod mwy am lefel a natur ymgysylltiad myfyrwyr yn y diwydiant rhyw, yn ogystal â'u cymhelliannau, eu profiadau a'u hanghenion.
2. Roeddem hefyd am ystyried yr angen am bolisi, arweiniad a hyfforddiant i annog y ddarpariaeth o gymorth a chefnogaeth briodol ar gyfer myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw (drwy wasanaethau megis lles myfyrwyr a chefnogaeth i fyfyrwyr mewn AU yng Nghymru.)

Diffinnir gwaith rhyw yn nhermau 'cyfnewid gwasanaethau, gweithredoedd neu nwyddau rhywiol am iawndal materol (Weitzer 2010:1) ac felly mae'n cyfeirio at amrediad eang o weithgareddau posib. Gydol yr adroddiad gwahaniaethir rhwng gwaith rhyw uniongyrchol (yr hyn y cyfeirir ato'n gyffredin fel 'puteinio') a gwaith rhyw anuniongyrchol (sef gwasanaethau rhywiol nad ydynt yn cynnwys cyswllt clòs ac uniongyrchol, megis dawnsio erotig a gwasanaethau gwegamera, actio porn, modelu cyfareddol). Yn ogystal â hyn, rhoddir ystyriaeth i swyddi gweinyddol ac ategol o fewn y diwydiant rhyw (megis rheolwr gwasanaeth partneru neu dderbynydd mewn parlwr) wrth fesur lefel ymgysylltiad myfyrwyr yn y diwydiant rhyw yn gyffredinol.

METHODOLEG

Defnyddiodd yr astudiaeth sawl gwahanol ddull, gan gyfuno dulliau ymchwil mesurol ac ansoddol; roedd y cyfan yn seiliedig ar fethodoleg Ymchwil Gweithredol ar sail gwybodaeth gan gyfoedion. Roedd elfen allweddol o'r prosiect yn dibynnu ar hyfforddi saith ymchwilydd o blith cyfoedion (myfyrwyr sy'n gweithio, neu sydd wedi gweithio, yn y diwydiant rhyw) er mwyn iddynt gynorthwyo â datblygu'r wefan, datblygu'r arfau ymchwil, casglu data, dadansoddi'r data a dehongli'r data.

Elfen allweddol arall o'r prosiect oedd rhoi cyfle i fyfyrwyr sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw i fod yn aelod o'r prosiect. Gwnaed ceisiadau am aelodaeth drwy wefan y prosiect. Derbyniwyd dros 80 o geisiadau am aelodaeth; daeth 22 o fyfyrwyr yn aelodau o'r prosiect. Roedd gan aelodau'r prosiect fynediad i Fforwm (lle gallai aelodau drafod unrhyw bwnc ymysg ei gilydd). Roedd yno hefyd wasanaeth estyn allan dros-y-we (lle gallai aelodau gynnal sgysiau ag aelod staff neu wirfoddolwr) ynghyd â chael cwnsela un i un â rhywolegydd. Hefyd defnyddiwyd gwybodaeth a gasglwyd o sgysiau ar y fforwm a'r gwasanaeth estyn allan dros-y-we at ddibenion ymchwil.

Derbyniwyd cymeradwyaeth foesegol gyffredinol gan Fwrdd Moeseg, Coleg Ymchwil y Gyfraith ym Mhrifysgol Abertawe.

Casglu data i gyrraedd amcan 1 yr ymchwil

- Mae'r **arolwg myfyrwyr yn y diwydiant rhyw** yn arolwg traws-doriadaol ar-lein sylweddol. Hyrwyddwyd yr arolwg yng Nghymru i ddechrau, ond fe'i hymestynwyd i weddill y DU yn ddiweddarach. Agorwyd yr arolwg gan gyfanswm o 10,991. Roedd y sampl terfynol yn cynnwys 6,773 o bobl ar ôl glanhau data. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau ar faterion megis ymagweddiad myfyrwyr tuag at y diwydiant rhyw, myfyrwyr yn ystyried ymgymryd â gwaith rhyw a chyfranogiad myfyrwyr yn y diwydiant rhyw.
- **Casglu data ansoddol gyda myfyrwyr sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw:**
 - Cynhaliwyd cyfweiliadau wyneb yn wyneb wedi'u lled-strwythuro â myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw. Cyfranogodd wyth o fyfyrwyr (un dyn a saith dynes) yn y cyfweiliadau.
 - Casglwyd gwybodaeth o'r fforwm ar-lein ar gyfer aelodau'r prosiect. Cyfrannodd 10 aelod o'r prosiect naill ai gwestiwn, mater ar gyfer trafodaeth neu ymateb i gwestiwn. Bu cyfanswm o 25 o bynciau a 163 o sylwadau.

- Casglwyd gwybodaeth o'r sgysiau a gafwyd o ganlyniad i estyn allan dros-y-we. Defnyddiwyd yr arf gwe-gyrraedd gan ddeg aelod o'r prosiect (2 ddyn ac 8 dynes). Roedd y nifer o sgysiau a gynhaliwyd dros-y-we â phob aelod yn amrywio o 1 i 45.

Casglu data i gyrraedd amcan 2 yr ymchwil

- Anfonwyd Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth allan i bob Prifysgol yng Nghymru. Diben y ceisiadau hyn oedd sefydlu os oedd gan unrhyw sefydliad AU bolisi penodol parthed cyfranogiad myfyrwyr yn y diwydiant rhyw. Ymatebodd pob un ohonynt
- Cynhaliwyd astudiaeth o achos mewn un brifysgol yng Nghymru. Golygodd hyn ddsbarthu holiadur byr ar-lein ymysg yr holl staff. Roedd y cwestiynau'n rhoi sylw penodol i ganfyddiadau staff o waith rhyw, profiadau o ddatgelu gwaith rhyw ac ymatebion neu weithredu yn sgil datgelu o'r fath. Derbyniwyd cyfanswm o 133 ymateb; roedd 106 o'r rhain yn gweithio mewn swyddi lle roedd ganddynt gyswllt â myfyrwyr.
- Cyfweiliadau personol â staff o wasanaethau ategol prifysgolion a chynrychiolwyr undebau myfyrwyr ledled Cymru. Roedd y cyfweiliadau wedi eu lled-strwythuro, ac yn rhoi sylw penodol i ganfyddiadau o waith rhyw, profiadau o ddatgelu ac ymateb i ddatgelu. Cyfweilwyd â 31 o bobl o amrywiaeth o wahanol swyddi ategol ac Undebau Myfyrwyr, a chafwyd cynrychiolaeth o bob prifysgol yng Nghymru.

DADANSODDI DATA

Dadansoddwyd data mesurol gan ddefnyddio pecyn meddalwedd dadansoddi data SPSS. Nodwyd cyfweiliadau ansoddol fesul thema gan ddefnyddio meddalwedd dadansoddi ansoddol NVIVO.

CANFYDDIADAU

Amcan ymchwil 1: Ymgysylltiad myfyrwyr â'r diwydiant rhyw a'r profiadau maent wedi byw drwyddynt

- Mae bron i 5% o fyfyrwyr wedi gweithio yn y diwydiant rhyw.
- Mae un o bob pump o fyfyrwyr wedi ystyried gwneud hyn.
- Mae myfyrwyr sy'n ddynion yn fwy tebygol o fod wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol am arian o gymharu â myfyrwraigedd.
- Nid yw myfyrwyr sy'n ymwneud â gwaith rhyw yn gwneud hynny'n rheolaidd, mae'r symiau o arian a gaiff

eu hennill yn debygol o fod yn isel, ac mae'r arian yma'n debygol o gael ei wario ar gostau byw o ddydd-i-ddydd.

- Mae'r rheiny sy'n gwneud gwaith rhyw uniongyrchol yn gwneud hynny'n fwy rheolaidd, ac yn creu mwy o incwm o gymharu â'r rheiny sy'n gwneud gwaith rhyw anuniongyrchol.
- Mae cymhelliannau myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw yn seiliedig i raddau helaeth ar ennill arian mewn ffordd hyblyg, ond mae grŵp sylweddol o fyfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw yn gwneud hynny am resymau eraill sy'n ymwneud â'r potensial i gael pleser o'r profiad.
- Nid yw un o bob pedair o fyfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw wastad yn teimlo'n ddiogel wrth weithio, ac mae'r ffigwr yma'n uwch ar gyfer y rheiny sy'n gwneud gwaith rhyw uniongyrchol.
- Mae myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw yn ofni cael eu stigmateiddio, a'r agwedd negyddol bwysicaf sy'n perthyn i wneud gwaith rhyw yw'r angen i gadw ymgysylltiad â gwaith rhyw yn gyfrinachol.
- Mae cyfran sylweddol o fyfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw wedi cysylltu â gwasanaethau cymorth ynglŷn â'u gwaith (yn arbennig cwnsela myfyrwyr) ac mae grŵp llai wedi cyfeirio at yr angen am fwy o gefnogaeth; gwasanaethau ar-lein yn benodol.

Amcan ymchwil 2: Ymatebion Addysg Uwch a chanfyddiadau staff

- Nid yw prifysgolion yn cynnwys myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw yn benodol yn eu polisiau.
- Mae gweithwyr rhyw yn datgelu eu hymgylltiad â'r diwydiant rhyw i staff academaidd mewn sefydliadau AU.
- Mae rhai aelodau staff yn bryderus ynglŷn ag enw da'r brifysgol a phroffesiynoldeb.
- Nid yw staff yn ymwybodol, neu maent yn ansicr, ynglŷn â'r gefnogaeth sydd ar gael.
- Nid yw staff yn ymwybodol, neu maent yn ansicr, ynglŷn â pha agweddau o waith rhyw sy'n gyfreithlon neu'n anghyfreithlon, tra gallai eu canfyddiadau o anghyfreithlondeb effeithio ar sut y bu iddynt ddilyn i fyny achos o ddatgelu.
- Mae'r mwyafrif o staff eisiau polisi neu ganllawiau gan y brifysgol - ar-lein fyddai orau - sy'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r gyfraith a gwasanaethau sydd ar gael.
- Roedd lleiafrif sylweddol o'r staff eisiau hyfforddiant ar y mater, tra bod eraill eisiau i hyfforddiant fod ar gael fel a phan fyddai ei angen.

TRAFODAETH

- Nid yw gwaith rhyw yn alwedigaeth sy'n gyfyngedig o ran rhywedd, ac mae angen cydnabod presenoldeb gweithwyr rhyw sy'n ddynion neu'n draws-ryweddol.
- Mae mwy i waith rhyw nag un profiad, ac mae gan fyfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw amrywiaeth o gymhelliannau a phofiadau, ynghyd ag anghenion posib. Mae myfyrwyr sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw felly angen ymagweddiad unigol sy'n rhoi ystyriaeth i brofiadau ac anghenion personol y myfyriwr.
- Mae myfyrwyr sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw yn cael mynediad i wasanaethau cymorth mewn sefydliadau AU, ac o'r herwydd mae angen i'r gwasanaethau hyn gael dealltwriaeth o'r sefyllfa, ac mae angen iddynt fod yn gallu cwrdd ag anghenion y myfyriwr hyn.
- Mae diogelwch yn ofid i rai gweithwyr rhyw, ac mae angen i sefydliadau AU a gwasanaethau cymorth fod yn ymwybodol o sut i ymdrin â sefyllfaoedd o safbwynt dioddefwyr, yn ogystal ag annog myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw i reportio trais i'r heddlu.
- Mae myfyrwyr sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw yn wynebu stigma a rhagfarn ar lefel sefydliadol, sy'n llyfetheirio eu hiechyd a'u lles ac yn eu hallgau'n gymdeithasol. Dylid sicrhau bod sefydliadau AU yn gwneud safiad anfeiniadol parthed myfyrwyr sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw.

ARGYMHELLION ALLWEDDOL

- Rhaid i sefydliadau AU gydnabod bod yno fyfyrwyr sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw.
- Mae angen herio stereoteipiau a chamddealltwriaeth ynglŷn â myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw.
- Dylai sefydliadau AU wneud safiad nad yw'n allgau parthed myfyrwyr sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw, ac ni ddylid rhoi blaenoriaeth i enw da'r brifysgol dros amddiffyniad a lles y myfyrwyr sy'n gweithio yn y diwydiant.
- Dylai Undebau Myfyrwyr weithio gyda sefydliadau AU i amddiffyn myfyrwyr oll rhag stigmateiddio a chamwahaniaethu, gan gynnwys y rheiny sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw.
- Mae angen ymdrech barhaus i ganfod a helpu myfyrwyr sy'n dioddef caledi ariannol.
- Mae angen i staff AU deimlo'n hyderus wrth ymdrin â myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw, sydd angen arweiniad a hyfforddiant. Gallai polisi AU hefyd fod yn ddefnyddiol yn y cyd-destun hwn.
- Ar lefel prifysgol, buasem yn argymhell ymagweddiad wedi ei chydlynu tuag at fyfyrwyr yn y diwydiant rhyw.
- Mae angen gwneud mwy o ymdrech i estyn allan at fyfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw drwy sianelau ar-lein, a chynnig i'r rheiny sy'n gweithio yn y diwydiant yr arfau i'w galluogi i gyfathrebu â'i gilydd.

1 | RHAGARWEINIAD

1.1. DIFFINIAD O DERMAU

Nid yw'n hawdd diffinio'r 'diwydiant rhyw' nac yn wir pa weithgareddau sy'n cael eu hystyried yn 'waith rhyw'. Defnyddiodd ein prosiect ddisgrifiad eang o waith rhyw fel yr hyn a argymhellir gan Weitzer (2010: 1) yn nhermau 'cyfnewid gwasanaethau, perfformiadau neu nwyddau rhywiol am iawndal materol'. Fel yma, caiff y term 'gwaith rhyw' ei ddefnyddio fel term cyffredinol ar gyfer amrediad eang o weithgareddau sy'n cyfleu gwahanol lefelau o gyfathrach. Mae'r diwydiant yn cynnwys nid yn unig y gweithwyr rhyw, ond hefyd y rheiny sydd â rôl weinyddol neu ategol o fewn y diwydiant. Nodwyd tri chategori bras o weithgareddau:

- **Gwaith rhyw uniongyrchol**, sy'n cynnwys yr hyn y cyfeirir ato'n aml fel 'puteinio' o ran gwerthu gwasanaethau rhywiol sy'n golygu cyffyrddiad uniongyrchol a chlôs â chleient (puteinio; partneru; gwerthu gwasanaethau rhywiol yn annibynnol; gwerthu gwasanaethau rhywiol mewn puteindy, parlwr tylino neu sawna; dominyddwr neu ostyngwr proffesiynol);
- **Gwaith rhyw anuniongyrchol**, sy'n cyfeirio ar wasanaethau rhywiol sydd ddim yn cynnwys cyffyrddiad uniongyrchol â'r cleient (actio yn y diwydiant porn; gwerthu rhyw ar ffurf sgysiaau ffôn, gwerthu gwasanaethau rhywiol ar y rhyngwyd neu wegamera; dawnsio erotig, dinoethi, modelu cyfareddol; bwltier noeth)
- **Rôl weinyddol neu ategol**, sy'n cynnwys gweithgareddau megis trefnu gweithgareddau rhywiol masnachol neu sy'n cynnig rhyw fath o gefnogaeth i weithgareddau o'r fath (rheolwr asiantaeth hebrwng; pimp; madam neu reolwr mewn puteindy, sawna neu barlwr tylino; gyrrwr i weithwyr rhyw; derbynnydd mewn puteindy, sawna neu barlwr tylino).

1.2 SYMBYLIAD AR GYFERY PROSIECT

"Mae ychydig o fy ffrindiau'n gwybod beth dwi'n ei wneud; dim ond llond dwrn sy'n gwybod. Maen nhw'n barod iawn i dderbyn, maen nhw'n gwybod fy mod i'n ysbryd rhydd a bydda i'n gwneud beth bynnag dwi eisiau. Dydw i ddim yn malio llawer am beth mae pobl eraill yn ei feddwl, ond gall fod yn fater 'tabŵ' os oes ganddyn nhw stereoteip o beth

yw merch sy'n gwerthu rhyw; maen nhw'n disgwyl problem gyffuriau neu ryw gymhlethdod o'r fath. Dwi'n teimlo nad yw cymdeithas efallai mor wael ag oedd yn arfer bod, ond mae yno'n dal i fod rhai pobl sy'n edrych arnoch fel pe baech chi'n wehilion cymdeithas."

(Lila - Aelod o'r prosiect sy'n gwneud gwaith partneru)

Roedd y sylwadau canlynol yn allweddol i sefydlu'r prosiect:

Prinder ymchwil parthed myfyrwyr sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw. Nid yw'r syniad fod myfyrwyr yn ymgysylltu â'r diwydiant rhyw wrth astudio yn y Brifysgol wedi cael ei hymchwilio'n drylwyr ar draws y byd, o fewn y DU nag ar unrhyw lefel yng Nghymru. Serch hynny, mae ymchwil ar raddfa fach a gynhaliwyd yn Lloegr yn awgrymu y gallai cymaint ag un o bob deg o fyfyrwyr fel yn ymwneud â rhyw fath o waith rhyw, a bod dros 20% yn fodlon ystyried gwaith rhyw er mwyn talu am eu hastudiaethau (Roberts et al. 2007).

Mae ymchwil a gynhaliwyd gan Sanders a Hardy (2013) yn cadarnhau bod cysylltiadau rhwng dawnsio côl a myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw, gyda thua un o bob tair o'u sampol o ddawnsiwr erotig yn dweud eu bod yn fyfyrwagedd. Yn ogystal â hyn, mae ymchwil gan Sagar et al. (2011) gyda gweithwyr rhyw dan-do'n tynnu sylw at fodolaeth carfan o fyfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw yng Nghaerdydd, gyda 20% o'r 30 a gymerodd ran yn dweud eu bod yn fyfyrwagedd, a gwybodaeth a gasglwyd gan reolwyr gwasanaeth partneru yn awgrymu bod hyd at 80% o'u gweithwyr yn fyfyrwagedd.

Diffyg gwybodaeth ynglŷn â chymhelliannau ac anghenion myfyrwyr sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw. Tra bod ymchwil (ar lefel fach) yn awgrymu bod myfyrwyr yn gweithio yn y diwydiant rhyw, ychydig iawn o wybodaeth oedd ar gael ynglŷn â'u cymhelliannau, eu profiadau a'u hanghenion (emosiynol, corfforol, rhywiol ac ariannol).

Yn arbennig yn y cyd-destun hwn, roedd tuedd myfyrwyr oedd mewn dyled i ymgymryd â gwaith rhyw yn fater cynyddol yn y DU. Diddymwyd grantiau mandadol ar gyfer astudio mewn prifysgolion yn y DU yn y 1990au, gan adael llawer o fyfyrwyr heb lawer o ddewis ond i gymryd benthyciadau hir-dymor i gwrdd â'u hanghenion ariannol. Arweiniodd hyn at gynydd mewn dyledion myfyrwyr,

yn ogystal â phryder cynyddol y gallai tlodi fod yn ffactor allweddol mewn annog myfyrwyr i fynd i mewn i'r diwydiant rhyw. Roeddem yn gwybod eisoes bod pwysedd ariannol yn effeithio'n negyddol ar fyfyrwyr gan greu problemau seicolegol oedd yn niweidio eu perfformiad mewn arholiadau (Roberts a Zelenyanski 2002; Andrews a Wilding 2004; Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr 2004). Serch hynny, ychydig iawn o dystiolaeth oedd yn bodoli ynglŷn â'r gefnogaeth emosiynol, er enghraifft, y gallai myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw fod ei hangen.

Amharodrwydd gweithwyr rhyw i ddatgelu eu swyddi i wasanaethau oherwydd ofnau ynglŷn â stigmatiddio a rhagfarn gan broffesiynwyr.

Mae ymchwil a gynhaliwyd dros gyfnod o flynyddoedd wedi dwyn sylw at amharodrwydd gweithwyr rhyw i ddatgelu eu swyddi i ystod eang o wasanaethau a phroffesiynwyr; gall ofnau ynglŷn â stigma a beirniadaeth olygu nad yw gweithwyr rhyw yn cael mynediad i unrhyw wasanaethau o gwbl (gweler, Sagar et al. 2011). Mae hyn hefyd yn peri problem arbennig o gofio bod gwaith rhyw yn cael ei gadw'n gyfrinach i raddau helaeth rhag teulu a ffrindiau, gan olygu bod gweithwyr rhyw yn cael eu hynysu'n gymdeithasol, heb rwydweithiau cefnogaeth.

Diffyg gwasanaethau gwaith rhyw arbenigol. Mae yno lai na llond dwrn o wasanaethau yng Nghymru sydd naill ai'n arbenigol neu sy'n darparu unrhyw fath o wasanaeth sy'n cynorthwyo gweithwyr rhyw. Ynghyd â hyn, mae'r cymorth hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y rheiny sy'n gweithio ar y stryd, er mai dim ond tua 10% o'r rheiny sy'n ymgysylltu â'r diwydiant rhyw sy'n gweithio ar y stryd. Datgelodd ymchwil a gynhaliwyd gan Sagar a Jones mewn partneriaeth â Gibran UK fod y mwyafrif o waith rhyw yng Nghymru'n cael ei drefnu drwy'r rhyngwyd, eto nid oedd yno unrhyw wasanaethau oedd yn defnyddio technoleg i gyrraedd y garfan sylweddol hon (Sagar et al. 2014).

Diffyg cydnabyddiaeth polisi yng Nghymru o fewn Addysg Uwch (AU) y gall myfyrwyr yng Nghymru fod yn ymgysylltu â'r diwydiant rhyw.

Fel poblogaeth anweledig, ystyriwyd ei bod yn debygol y gallai myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw fod yn disgyn drwy'r rhwyd o ran y ddarpariaeth o wasanaethau yng Nghymru - roeddem yn pryderu'n arbennig ei bod yn bosib nad oedd gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr mewn sefydliadau AU yng Nghymru wedi eu teilwra i gwrdd ag anghenion myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw. Yn wir, darparodd ymchwil gan Cusick et al. (2009) i bolisiau AU y DU yn 2010 rywfaint o arwydd o faint y broblem hon. Daethant i'r casgliad bod diffyg polisi cyffredinol parthed

ymgysylltiad myfyrwyr â rhyw masnachol, a thueddiad gan sefydliadau AU i ddeall myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw yn nhermau 'camymddygiad' a 'dwyn anfri ar y sefydliad'. Roedd Cusick et. al. yn dadlau'n gryf fod angen cefnogaeth ar weithwyr rhyw, a bod angen eu hamddiffyn dan bolisiau gwrth-gamwahaniaethu, aflonyddu a bwlio, yn hytrach na'u cosbi gan y sefydliad.

Lleisiau gweithwyr rhyw sydd ar goll o bolisi yn y DU.

Caiff llywodraethau eu beirniadu'n aml am fetu cynnwys barn a safbwyntiau gweithwyr rhyw (neu 'buteiniaid' fel y cyfeirir atynt gan sawl llywodraeth yn olynol) mewn datblygiad polisi yn Lloegr a Chymru (gweler er enghraifft, O'Neill 2007). Cred y prosiect bod lleisiau gweithwyr rhyw yn allweddol mewn sefydlu gwasanaethau mwy effeithiol.

1.3 AMCANION Y PROSIECT

Mewn ymateb i'r materion a amlinellwyd uchod, roedd yn eglur fod yno nid yn unig angen am fwy o wybodaeth am fyfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw, ond bod hefyd angen gweithredu er mwyn cyrraedd y boblogaeth gudd yma oedd yn cael ei stigmatiddio. Roedd hyn er mwyn gwella eu lles a'u cynhwysiad cymdeithasol, a sicrhau cyfranogiad myfyrwyr sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw. Tra bod yr adroddiad hwn yn rhoi sylw penodol i elfen ymchwil y prosiect yn unig, mae'r adran hon yn gosod allan yn gryno amcanion cyffredinol y prosiect, gan gynnwys:

- Cynnal ymchwil i farn myfyrwyr tuag at y diwydiant rhyw, lefel ymgysylltiad myfyrwyr yn y diwydiant rhyw, yn ogystal â chymhelliannau myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw, eu profiadau a'u hanghenion.
- Cynnal ymchwil i ymagweddiadau sefydliadau AU yng Nghymru tuag at waith rhyw a'r lefel o gymorth a gaiff ei darparu gan sefydliadau AU, er mwyn canfod yr angen (os o gwbl) am ddatblygu polisiau, canllawiau a hyfforddiant.
- Datblygu e-wasanaeth iechyd anfeiriadol, anhysbys a chynhwysol ar gyfer myfyrwyr sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw, a fyddai'n darparu gwybodaeth, arweiniad a chefnogaeth hanfodol.
- Cynyddu ymwybyddiaeth ynglŷn â myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw ymysg myfyrwyr, sefydliadau AU a chymdeithas yn gyffredinol, er mwyn lleihau'r stigma a wynebir gan fyfyrwyr yn y diwydiant rhyw.

1.3.1 Y ddarpariaeth o wasanaethau a chodi ymwybyddiaeth

Yn gyntaf, tra bod ffocws y prosiect ar fyfyrwyr sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw, roedd y prosiect hefyd yn darparu gwasanaethau i boblogaeth myfyrwyr yn gyffredinol. Sefydlwyd **gwefan e-iechyd** (thestudentsexworkproject.co.uk), sy'n darparu gwybodaeth ar faterion ieuchyd rhywiol yn gyffredinol ac ar y diwydiant rhyw yn arbennig. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys dolenni at ddarparwyr gwasanaethau ieuchyd rhywiol, blogiau rheolaidd ar destunau syn ymwneud â'r diwydiant rhyw ac eitemau newyddion perthnasol. Er mwyn gwneud y prosiect (a'r wefan) yn hysbys i fyfyrwyr, cynhaliwyd ymgyrchoedd cyfathrebu dwys ledled Cymru oedd yn cynnwys cyswllt wyneb yn wyneb â myfyrwyr mewn Ffeiriâu'r Glas, ynghyd â dosbarthu taflenni gwybodaeth oedd yn cyfeirio pobl at wefan y prosiect. Hefyd cynhaliwyd ymgyrch gyfryngau cymdeithasol barhaus drwy Facebook a Thrydar. Noder hefyd, i'r diben o gyflawni amcanion ymchwil y prosiect, y targedwyd myfyrwyr **oll** gan eu gwahodd i gymryd rhan mewn arolwg ar-lein (dechreuwyd yr arolwg gan dros 10,000 o bobl) Mae'r ffaith i 60,000 o bobl ymweld â'r wefan, ac iddynt fwrw golwg ar dros 120,000 o dudalennau, yn dystiolaeth i lwyddiant strategaethau cyfathrebu ac ymgysylltiad blaengar y prosiect.

Yn ail, ar gyfer myfyrwyr sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw, crewyd **amryw o arfau ar gyfer darparu gwasanaethau ar-lein** er mwyn estyn allan at y grŵp ynysig hwn, er mwyn gwella eu mynediad i wasanaethau ieuchyd rhywiol, ynghyd â chynnig cyngor a gwybodaeth arbenigol ar les corfforol a meddyliol. Roedd felly rhaid i'r myfyriwr yn gyntaf ddod yn aelod o'r prosiect, ac ni ellid ond gwneud ceisiadau am aelodaeth drwy wefan y prosiect. Derbyniwyd dros 80 o geisiadau am aelodaeth, ac yn y pen draw, daeth 22 o fyfyrwyr yn aelodau o'r prosiect. Roedd y prosiect yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau ddarparu eu rhif adnabyddiaeth myfyrwyr. Ystyriwyd hyn i fod yn hanfodol er mwyn amddiffyn cywirdeb a chyfrinachedd y safle. Serch hynny, mae'n debygol iawn y bu i'r gofynion hyn atal myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw rhag ymuno â'r prosiect (oherwydd ofnau ynglŷn â chael eu 'datgelu'). Roedd gan aelodau'r prosiect fynediad i dri arf ar-lein:

- Fforwm oedd dim ond yn agored i aelodau'r prosiect a staff, lle gallai aelodau drafod unrhyw bwnc o'u dewis.
- Estyn allan dros-y-we / gwe-gyrhaeddiad: gwasanaeth sgwrsio y gellid cael mynediad iddo drwy wefan y prosiect, lle gallai aelodau o'r prosiect drafod unrhyw destun o'u dewis ag aelod o staff y prosiect neu wirfoddolwr.
- Cwnsela ar-lein un-i-un â rhywlegydd cymwys.

Yn drydydd, er mwyn gwella ymwybyddiaeth o fyfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw, cynhyrchwyd ffilm ar ffurf rhaglen ddogfen, oedd yn seiliedig ar gyfweiliadau personol â myfyrwyr sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw. Hefyd recordiwyd dyddiaduron fideo gan rai o'r myfyrwyr hyn. Rydym y rhagweld y bydd y **ffilm** a'r dyddiaduron fideo yn codi ymwybyddiaeth o gymhlethdodau myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw.

Yn olaf, yn seiliedig ar ganlyniadau ymchwil, mae **pecynnau hyfforddiant** yn cael eu datblygu, a gaiff eu cyfeirio at staff AU a rhanddeiliaid eraill.

1.3.2 Amcanion yr ymchwil

Roedd i'r prosiect **ddau amcan allweddol o ran ymchwil: Amcan cyntaf yr ymchwil** oedd creu gwybodaeth newydd o ran myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw yng Nghymru'n benodol ac ar draws y DU yn gyffredinol. Roedd gennym ddiddordeb arbennig mewn canfod mwy am lefel ymgysylltiad myfyrwyr yn y diwydiant rhyw, yn ogystal â'u cymhelliannau, profiadau a'u hanghenion. I'r diben hwn, lluniwyd y cwestiynau ymchwil canlynol:

1. Faint o fyfyrwyr sy'n ymgymryd â gwahanol swyddi yn y diwydiant rhyw?
2. Faint o fyfyrwyr sydd wedi ystyried ymgymryd â swyddi yn y diwydiant rhyw?
3. Pa mor aml mae myfyrwyr yn ymgysylltu â'r diwydiant rhyw?
4. Beth yw ymagweddiad myfyrwyr tuag at y diwydiant rhyw?
5. Beth yw cymhelliannau myfyrwyr dros weithio yn y diwydiant rhyw?
6. Beth yw agweddau negyddol gweithio yn y diwydiant rhyw ac oes yno unrhyw faterion o bryder o ran diogelwch?
7. Beth yw agweddau cadarnhaol gweithio yn y diwydiant rhyw?
8. Ydy myfyrwyr sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw'n mynegi angen am gefnogaeth?

Ail amcan yr ymchwil oedd ystyried yr angen am bolisi, arweiniad a hyfforddiant i annog y ddarpariaeth o gymorth a chefnogaeth briodol ar gyfer myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw (drwy wasanaethau megis lles myfyrwyr a chefnogaeth i fyfyrwyr mewn AU yng Nghymru.) I'r diben hwn, lluniwyd y cwestiynau ymchwil canlynol:

1. Sut mae sefydliadau AU yng Nghymru'n ymateb i fyfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw?

2. Beth yw dealltwriaeth staff AU o'r gyfraith a rheoliadau parthed y diwydiant rhyw?
3. Beth yw profiad staff AU o fyfyrwyr yn datgelu'r ffaith eu bod yn gweithio yn y diwydiant rhyw?
4. Ydy staff AU yn ymwybodol o anghenion myfyrwyr sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw a sut maen nhw, neu bydden nhw'n ymateb i fyfyrwyr sy'n datgelu gwybodaeth o'r fath.
5. Beth yw canfyddiad staff AU o'r angen am bolisi, arweiniad a hyfforddiant ynglŷn â myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw?

1.4 STRWYTHURYR ADRODDIAD

Mae'r adroddiad wedi ei drefnu o fewn yr adrannau canlynol:

Adran 2 Methodoleg: Mae'r adran hon yn darparu amlinelliad o fframwaith methodolegol y prosiect, ynghyd â disgrifiad o'r data a ddefnyddiwyd i gyrraedd amcanion yr ymchwil.

Adran 3. Canfyddiadau ar amcan 1 yr ymchwil: Mae'r adran hon yn adrodd ar lefel ymgysylltiad myfyrwyr yn y diwydiant rhyw, yn ogystal â darparu'r **disgrifiad empirig mwyaf arwyddocaol o waith rhyw ar lefel genedlaethol yn y DU hyd yma.**

Adran 4. Canfyddiadau ar amcan 2 yr ymchwil: Mae'r adran hon yn disgrifio polisiau mewn sefydliadau AU yng Nghymru parthed myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw, yn ogystal â gwybodaeth a phrofiadau staff prifysgolion. Mae'r data'n **darparu'r dystiolaeth empirig gyntaf o'r angen i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â myfyrwyr yn y diwydiant rhyw mewn AU yng Nghymru**, yn ogystal â'r angen am symud ymlaen â chanllawiau a hyfforddiant.

Adran 5. Trafodaeth: Mae'r adran hon yn darparu trafodaeth bellach ar y materion mwyaf perthnasol sy'n codi allan o'r prosiect, ac mae'n ffocysu'n benodol ar yr angen i fynd i'r afael â stereoteipio, stigma a diogelwch.

Adran 6. Argymhellion allweddol: Gan ddefnyddio casgliadau o ymchwil Prosiect Myfyrwyr yn y Diwydiant Rhyw, mae'r adran hon yn cofnodi argymhellion cadarnhaol ar gyfer Cymru a'r DU.

Nid prosiect ymchwil pur mo'r Prosiect Myfyrwyr yn y Diwydiant Rhyw, gan ei fod hefyd yn ceisio creu newid positif o ran gwell cynhwysiad cymdeithasol i fyfyrwyr oedd yn ymwneud â'r diwydiant rhyw, ynghyd â gwell mynediad i wasanaethau iechyd rhywiol i'r grŵp hwn. Mewn ymateb i'r materion a amlinellwyd yn yr adran flaenorol, sefydlwyd fframwaith lle gellid cyfuno'r wybodaeth newydd a gasglwyd (drwy ymchwil) â'r ddarpariaeth o wasanaethu. Mae prosiect MDRh felly'n enghraifft o **Ymchwil Gweithredol** sydd, fel y dywed O'Neill (2001:47) yn 'gyfuniad o brofiad ac ymrwymiad. Yn sicr, mae cyfuniad o brofiad ac ymrwymiad yn caniatáu i ni weld a llunio'r berthynas rhwng gwybodaeth a newid cymdeithasol.'

Un o nodweddion Ymchwil Gweithredol yw cynnwys cynifer o leisiau â phosib o blith 'testun yr astudiaeth' ei hunain, yn yr achos hwn myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw. Mae Ymchwil Gweithredol ymysg cymunedau gweithwyr rhyw yn y gorffennol wedi defnyddio sgiliau, profiad a dehongliadau ymchwilwyr o blith cyfoedion i ddarparu golwg o du mewn i'r sefyllfa sydd dan sylw, a allai gael ei chamddehongli gan ymchwilwyr o'r 'tu allan' (van der Meulen 2011). Gydol y prosiect, gweithiwyd gyda **saith ymchwilydd o blith cyfoedion**, a weithiodd fel rhan o dîm y prosiect. Buont wrthi, nid yn unig yn cynorthwyo gyda llunio cwestiynau'r ymchwil a chasglu'r canlyniadau ynghyd, ond hefyd mewn ystod eang o weithgareddau gan gynnwys: dylunio a diweddarau gwefan y prosiect; cynorthwyo mewn digwyddiadau megis Ffeiriau'r Glas; adolygu sgrïptiau a helpu i olygu ffilm y prosiect; datblygu pecynnau hyfforddiant; a datblygu cymorth i aelodau eraill o'r prosiect drwy estyn allan dros-y-we. Daw'r isod gan aelod o'r prosiect oedd yn frwd i rannu'r cyffro o fod yn ymchwilydd o blith cyfoedion ar y fforwm ar gyfer aelodau'n unig:

“ *Shwmae gyfeillion, felly ar ôl bod yn rhan o'r prosiect am gyfnod, dwi wedi penderfynu bod yn ymchwilydd ymhlith cyfoedion. Dydw i erioed wedi gwneud unrhyw beth fel yma o'r blaen, ond mae'n deimlad cyffrous cael cymryd rhan Credaf ei fod yn gyfle da! Rwyf yn gobeithio dysgu rhai pethau o'r profiad. Dydw i erioed wedi helpu gydag unrhyw beth fel yma o'r blaen, ac rwyf yn gobeithio y bydd fy nghyfraniad o gymorth. Nid yn unig hynny, ond o'r diwedd bydd gen i rywbeth i'w osod ar fy CV! Rwyf hefyd yn edrych ymlaen at weithio fel rhan o dîm, oherwydd does yno ddim llawer o waith tîm mewn gwaith rhyw. Bydd yn newid.* **”**

2.1 DATA A DDEFNYDDIWDYD I GYRRAEDD AMCAN 1 YRYMCHWIL

2.1.1 Yr Arolwg Rhyw Myfyrwyr

Cynlluniwyd arolwg eang ar-lein oedd yn cynnwys y materion isod:


- Ymagweddiad a barn myfyrwyr oll parthed ymgysylltiad myfyrwyr yn y diwydiant rhyw;
- Y nifer o fyfyrwyr sydd wedi cymryd rhan, neu wedi ystyried cymryd rhan, yn y diwydiant rhyw;
- Cymhelliannau'r rheiny oedd wedi cymryd rhan, neu wedi ystyried gwneud hynny;
- Profiadau ac anghenion y rheini oedd wedi cymryd rhan;
- Gwybodaeth ar amgylchiadau ariannol a chyflogaeth, oedd yn cynnwys gwaith rhyw lle bo hynny'n briodol;
- Gwybodaeth ar ble all myfyrwyr fynd am gymorth a chyngor;
- Manylion Demograffig.

Gweinyddwyd a threfnwyd yr arolwg gan Survey Monkey, a chynhaliwyd peilot cyn ei ddsbarthu. Defnyddiwyd cynllun traws-doriadol ac roedd cyfranogiad yn yr arolwg ar sail wirfoddol (felly ni chymerwyd sampl o ymatebwyr). Hyrwyddwyd yr arolwg yng Nghymru i ddechrau, ond fe'i hymestynwyd i weddill y DU yn ddiweddarach. Cynigiwyd cymhelliant i gwblhau'r arolwg. Rhoddwyd cyfle i'r cyfranogwyr gymryd rhan mewn raffl i ennill talebau ar gyfer archfarchnad a chondomau. Defnyddiwyd y dulliau recriwtio canlynol:

- Anfonwyd e-bost at 6,000 o fyfyrwyr ar gronfa-ddata NUS Extra, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yng Nghymru;
- Tair ymgyrch strategol mewn prifysgolion yng Nghymru, oedd yn cynnwys hyrwyddo'r arolwg mewn Ffeiriau'r Glas yn 2012 a 2013;
- Ymgyrch hyrwyddo ar-lein drwy gyfryngau cymdeithasol (Facebook a Thrydar);
- E-bostio dolen i'r arolwg ar-lein at fyfyrwyr drwy Undebau Myfyrwyr ym Mhrifysgolion Cymru;
- Hyrwyddo'r arolwg i fyfyrwyr y DU drwy'r cwmni masnachol ar gyfer ymgysylltiad myfyrwyr, *Student Beans*.

Casglwyd data rhwng Tachwedd 2012 a Thachwedd 2013. Dechreuodd cyfanswm o 10,991 o bobl yr arolwg, ond roedd 4,218 naill ai'n annilys neu bu iddynt roi'r gorau iddi'n gynnar yn y broses. Golygodd hyn fod y set-ddata terfynol yn cynnwys 6,773 o ymatebwyr. Roedd yr oedran yn amrywio o 16 i 66 (yr oedran ar gyfartaledd oedd 21.51); roedd 32.4% yn ddynion, 66.4% yn fenywod, 0.4% yn drawsryweddol, ac roedd 0.7% yn amharod i ddarparu'r wybodaeth hon. Del y dengys Ffigwr 1, roedd yr ymatebwyr o sefydliadau addysg

uwch yn Lloegr (47.7%), Cymru (48.0%), yr Alban (3.6%) a Gogledd Iwerddon (0.6%). Roedd y rhan fwyaf o'r rheiny a ymatebodd yn ddinasyddion y DU (19.3% yn Gymreig, 2.8% yn Albanwyr, 1.6% o Ogledd Iwerddon a 65.2% yn Saeson). Roedd myfyrwyr eraill o'r UE hefyd yn yr arolwg (5.9%) a rhai o du allan yr UE (5.1%). Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (89.1%) yn astudio ar gwrs israddedig, gyda 10.8% ar gyrsiau ôl-radd a 0.1% ar gyfuniad o'r ddau.



Ffigwr 1. Cyfranogiad yn yr arolwg ar draws y DU

2.1.2 Casglu data ansoddol gyda myfyrwyr sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw.

Diben casglu data ansoddol ymhlith myfyrwyr oedd yn ymwneud â'r diwydiant rhyw oedd darparu dealltwriaeth fanylach o amrywiaeth profiadau myfyrwyr sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw. Nod y cam hwn o'r prosiect oedd deall y llwybrau i mewn i'r diwydiant rhyw ac amodau gwaith y rheiny sy'n gwneud y dewis hwn. Hefyd effaith y gwaith hwn ar eu bywyd cymdeithasol a pherthynas glòs ag eraill, yn ogystal â'u hiechyd a diogelwch. Casglwyd y data ansoddol o dair ffynhonnell:

- **Cyfweliadau personol â myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw:** Cyfweliadau wyneb-yn-wyneb wedi'u lled-strwythuro â myfyrwyr oedd wedi nodi eu bod yn gweithio yn y diwydiant rhyw. Hefyd ffurfiodd rhai o'r cyfweliadau'r sail i'r sgript a ddatblygwyd ar gyfer y ffilwm. Cyfwelwyd ag wyth o fyfyrwyr; saith dynes ac un dyn.
- **Gwybodaeth a gasglwyd drwy'r fforwm ar-lein:** Roedd y fforwm ar wefan y prosiect yn agored i staff ac aelodau'r prosiect yn unig. Gallai aelodau o'r prosiect godi materion ar gyfer 'trafodaeth' a byddai gan aelodau eraill neu staff gyfle i ymateb iddynt. Cyfrannodd 10 aelod o'r prosiect naill ai gwestiwn, mater ar gyfer trafodaeth neu ymateb i gwestiwn. Roedd yno gyfanswm o 25 o bynciau a 163 o sylwadau. Y pynciau mwyaf poblogaidd (gyda'r nifer fwyaf o sylwadau) oedd cael profion am HDRh/HIV, amodau gwaith (gyda sylw penodol i buteindai), y peryglon sy'n perthyn i 'alwadau allan' a 'galwadau i mewn' gwaith rhyw a'r gyfraith, delwedd y corff (a'r hyn mae cleientiaid eisiau), effaith gwneud gwaith rhyw ar les, a sut i barhau i fod yn anghysbys a diogel.
- **Gwybodaeth a gasglwyd o sgysrsiau dros-y-we** (sgysrsiau rhwng aelodau'r prosiect a staff/gwirfoddolwyr drwy we-gyrhaeddiad): Defnyddiodd deg aelod o'r prosiect (wyth dynes a dau ddyn) y cyfleuster gwe-gyrhaeddiad. Roedd y nifer o sgysrsiau a gynhaliwyd dros-y-we â phob aelod yn amrywio o 1 i 45.

2.2 DATA A DDEFNYDDIWDYD I GYRRAEDD AMCAN 2YRYMCHWIL

2.2.1 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

Roeddem eisieu gwybod os oedd gan unrhyw Brifysgol yng Nghymru bolisi penodol parthed cyfranogiad myfyrwyr yn y diwydiant rhyw. Y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o ganfod yr wybodaeth hon oedd drwy wneud ceisiadau i holl

Sefydliadau AU ledled Cymru dan ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth (2000). Derbyniwyd ymatebion gan bob Sefydliad AU yng Nghymru. Roedd y cais yn gofyn i'r sefydliadau ddarparu gwybodaeth ar y meysydd canlynol:

- Bodolaeth polisïau yn y sefydliadau AU parthed cynnig cefnogaeth i fyfyrwyr sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw
- Prosesau y dylai aelod staff eu dilyn pe bai myfyrwyr yn datgelu eu bod yn gweithio yn y diwydiant rhyw;
- Y gweithdrefnau a ddilyni os canfyddir fod myfyrwr yn gweithio yn y diwydiant rhyw.

2.2.2 Astudiaeth o achos mewn prifysgol

Anfonwyd arolwg byr, wedi'i weinyddu gan 'Survey Monkey', at staff mewn un sefydliad AU yng Nghymru. Estynnwyd gwahoddiad i holl staff y Brifysgol i gymryd rhan yn yr arolwg drwy e-bost at y staff i gyd, oedd yn amlinellu amcanion yr astudiaeth o achos. Roedd cyfranogiad drwy fframwaith samplu hunan-ddewisol. Derbyniwyd 138 o ymatebion gan staff. Ar ôl i ni lanhau'r data, cyfanswm yr ymatebion oedd 133. O'r 133 a ymatebodd, roedd 106 ohonynt mewn swyddi lle roedd ganddynt gyswllt â myfyrwyr (79.7%). Nod yr astudiaeth o achos oedd:

- Canfod syniadau pobl ynglŷn â gwaith rhyw, yn arbennig parthed y gyfraith;
- Canfod os, ac ym mha gyd-destun, oedd myfyrwyr wedi datgelu eu swyddi yn y diwydiant rhyw i staff y brifysgol;
- Penderfynu, lle gwnaed datgeliad, sut yr ymatebodd staff i'r datgeliad hwnnw, a'r hyn a wnaed (os o gwbl) yn sgil hynny;
- Defnyddio tystiolaeth empirig i ddatblygu canllawiau a phrosesau cyfeirio clir i gynorthwyo gwasanaethau, fel a phan fo angen hynny.

2.2.3 Cyfweliadau personol â staff y brifysgol

Cynhaliwyd cyfweliadau wedi'u lled-strwythuro â staff prifysgolion ledled Cymru (gan gynnwys dim ond staff sy'n gyflogedig gan wasanaethau cymorth i fyfyrwyr a swyddogion etholedig mewn Undebau Myfyrwyr). Esblygodd y cwestiynau a ddefnyddiwyd o weithdai gyda phroffesiynwyr ar ddechrau'r prosiect ym Medi 2012. Hefyd adolygwyd a newidiwyd y cwestiynau yng ngoleuni awgrymiadau gan ymchwilwyr o blith cyfoedion. Llwyddodd y cyfweliadau i ganfod gwybodaeth am:

- Syniadau pobl ynglŷn â gwaith rhyw, yn arbennig parthed y gyfraith;

- Os, ac ym mha gyd-destun, oedd myfyrwyr wedi datgelu eu swyddi yn y diwydiant rhyw i staff y brifysgol;
- Lle gwnaed datgeliad, pa gamau (os o gwbl) gymerwyd;
- Canfyddiadau o anghenion myfyrwyr sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw;
- Beth sydd ei angen ar staff prifysgolion er mwyn gallu ymateb i ddatgeliad (posib).

Nodwyd y cyfranogwyr drwy samplo wedi ei dargedu, drwy chwilio mewn gwefannau Prifysgolion a chysylltu ag Undebau Myfyrwyr. Recriwtiwyd ymatebwyr o holl brifysgolion Cymru, fel y dangosir yn nhabl 1

Roedd gan y cyfranogwyr wahanol swyddi o fewn y prifysgolion: Cwnselydd (3), Cynghorydd Ariannol (1), Pennaeth y Gwasanaeth Cwnsela (1), Pennaeth Cymorth i Fyfrwyr (4), Nyrs (3), Uwch Gwnselydd (1), Staff Gwasanaeth Cymorth (1), Swyddogion Etholedig mewn Undeb Myfyrwyr (17).

Tabl 1. Nifer o ymatebwyr y cyfwelwyd â hwy ym mhob Prifysgol	
Aberystwyth	1
Prifysgol Bangor	3
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	3
Prifysgol Caerdydd	5
Prifysgol Glyndŵr	1
Coleg Cerdd a Drama Cymru	2
Prifysgol De Cymru - Morgannwg	2
Prifysgol De Cymru - Casnewydd	2
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	2
Prifysgol Abertawe	4
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant - Caerfyrddin	2
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant - Llambod	4
CYFANSWMY NIFER O YMATEBWYR	31

2.3 DADANSODDI DATA

Dadansoddwyd data mesurol gan ddefnyddio pecyn meddalwedd dadansoddi data SPSS. Nodwyd data ansoddol fesul thema gan ddefnyddio meddalwedd dadansoddi ansoddol NVIVO.

2.4 CYMERADWYAETH FOESEGOL

Derbyniwyd cymeradwyaeth foesegol gyffredinol gan Fwrdd Moeseg, Coleg Ymchwil y Gyfraith ym Mhrifysgol Abertawe. Rhoddwyd caniatâd i gynnal yr astudiaeth ymysg staff a defnyddwyr gwasanaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gan Bwyllgor Ymchwil a Moeseg De Orllewin Cymru. Hefyd gofynnwyd am gymeradwyaeth foesegol gan Brifysgol De Cymru parthed datblygu'r wefan, elfen o'r prosiect roeddynt yn gyfrifol am ei chyflawni.

Daeth y problemau moesegol sy'n perthyn i gynnal ymchwil i waith rhyw, ynghyd ag oblygiadau moesegol personol y rheiny fyddai'n cynnal yr ymchwil, i'r amlwg yn ystod hyfforddiant a gyflwynwyd gan Brifysgol Abertawe i ymchwilwyr o blith cyfoedion a gweithwyr maes/gwirfoddolwyr a gyflogwyd gan y prosiect.

2.5 CYDSYNIAD AC ANHYSBYSRWYDD

Cafwyd cydsyniad hysbys gan bawb a gyfranogodd yn yr ymchwil. Yn ystod yr 'Arolwg Rhyw Myfyrwyr', roedd hwn yn flwch roedd rhaid gosod tic ynddo cyn mynd ati i gwblhau'r arolwg. Yn nhermau cyfweiliadau personol â staff prifysgolion, cafwyd cytundeb ar ffurf cydsyniad ysgrifenedig cyn y cyfweiliad. Yn ystod cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb â myfyrwyr oedd yn gwneud gwaith rhyw, cafwyd cydsyniad llafar a gofnodwyd yn ddigidol.

O ran sgysiau ar ffurf gwe-gyrhaeddiad, roedd y rheiny a gymerodd ran hefyd yn aelodau o'r prosiect. Fel un o amodau aelodaeth drwy wefan y prosiect, hysbyswyd cyfranogwyr o'u hawliau i gymryd rhan a thynnu allan ar unrhyw amser, ac roedd gofyn iddynt i osod tic mewn blwch i ddangos eu bod yn deall yn llwyr mai astudiaeth ymchwil oedd hwn. Yn ystod sgysiau ar ffurf estyn allan dros-y-we, atgyfnerthwyd hyn gan yr ymchwilydd pan fo hynny'n briodol.

Am resymau anhysbysrwydd, gwnaed yn sicr fod pob gwybodaeth a allai ddatgelu pwy oedd unigolion (enwau go iawn yn ogystal â ffug-enwau gweithwyr rhyw, cyrsiau prifysgol neu leoliadau) yn anhysbys.

3 | CANFYDDIADAU AR AMCAN 1 YR YMCHWIL: YMGYSYLLTIAD MYFYRWYR Â'R DIWYDIANT RHYW A'R PROFIADAU MAENT WEDI BYW DRWYDDYNT


3.1 YMGYSYLLTIAD GWIRIONEDDOL AC YSTYRIAETHOL O'R DIWYDIANT RHYW

Canfu'r astudiaeth bod 4.8% o'r ymatebwyr wedi ymgysylltu â'r diwydiant rhyw mewn rhyw ffordd neu'i gilydd (gan gynnwys pob math o weithgareddau megis gwaith rhyw uniongyrchol, gwaith rhyw anuniongyrchol a swyddi gweinyddol/ategol). Roedd y ffigwr hwn yn uwch i ddynion o gymharu â menywod, gyda 5.0% o'r dynion a ymatebodd yn dweud eu bod wedi ymgysylltu â'r diwydiant rhyw, gyda'r canran ar gyfer menywod yn 3.4%. Prin oedd yr enghreifftiau o swyddi gweinyddol ac ategol ym maes gwaith rhyw anuniongyrchol.


Nododd tuag un o bob pump (21.9%) eu bod wedi ystyried gweithio yn y diwydiant rhyw. Roedd y ffigwr hwn ychydig yn is ar gyfer dynion na menywod (18.5% o ddynion o gymharu â 23.6% o fenywod). Unwaith eto, gweithgareddau oedd y cynnwys gwaith rhyw anuniongyrchol oedd y mwyaf 'poblogaidd'.

Mae ffigurau 2 a 3 yn dangos y lefel o gyfranogiad yn y diwydiant rhyw, yn ogystal â'r rheiny sydd wedi ystyried gwneud hynny, gan wahaniaethu rhwng y dynion a'r menywod a ymatebodd. Hepgorwyd yr ymatebwyr trawsryweddol a'r rheiny na nododd eu rhywedd, oherwydd bod eu niferoedd yn rhy isel i'w dehongli mewn modd ystyriol. Noder bod rhai ymatebwyr yn ymwneud â gwahanol fathau o waith rhyw, ac o'r herwydd, mae'r canrannau yn y ffigwr yn uwch na chyfanswm y canrannau ar gyfer y rheiny sy'n ymgysylltu ac wedi ystyried ymgysylltu.

Gan ystyried y naill graff a'r llall, ymddengys fod y diwydiant rhyw yn bresennol ym mywydau rhai myfyrwyr; bydd rhai'n ymgysylltu mewn gweithgareddau sy'n rhan o'r diwydiant rhyw, tra bydd eraill dim ond yn ystyried gwneud hynny. Mae Ffigwr 4 yn dangos y nifer o fyfyrwyr a amcangyfrifir i fod yn gweithio, neu sydd wedi gweithio, yn y diwydiant rhyw, ynghyd â'r nifer o fyfyrwyr sy'n ystyried ymgymryd â gweithgareddau o'r fath, a hynny ar gyfer pob grŵp o gant o fyfyrwyr.



Ffigwr 2. Ymgysylltiad yn y diwydiant rhyw yn ôl y math o weithgaredd



Ffigwr 3. Ystyried ymgysylltiad yn ôl y math o weithgaredd



Ffigwr 4. Amcangyfrif o'r rheiny sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw a'r rheiny sy'n ystyried gwneud hynny, fesul pob 100 o fyfyrwyr

3.2 AMLDER CYFRANOGIAD AC ANAWSTERAU MEWN GADAEL Y DIWYDIANT RHYW

Roedd yr ymatebwyr oedd wedi gweithio yn y diwydiant rhyw (gan ystyried y rheiny oedd yn ymwneud â gwaith rhyw uniongyrchol ac anuniongyrchol yn unig) ar y cyfan yn gwneud hyn yn achlysurol, a hynny yn y tymor byr, gan greu incwm misol isel yn ei sgïl. Nid oedd tri chwarter yr ymatebwyr (76.6%) a nododd eu bod wedi gweithio yn y diwydiant rhyw bellach yn gwneud hynny pan fu iddynt

gwblhau'r arolwg. Golyga hyn y bydd y nifer o fyfyrwyr sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw ar unrhyw adeg benodol yn is na'r canran a amcangyfrifir o 4.8%, gan fod y ffigwr hwn yn cyfeirio ar gyfranogiad dros oes.

Roedd cyfnod ymgysylltiad braidd yn fyr, gyda thua hanner yr ymatebwyr (54%) yn ymwneud â'r diwydiant rhyw am lai na chwe mis. Hefyd roedd tua hanner yr ymatebwyr (54.1%) oedd yn gweithio yn y diwydiant (ar hyn o bryd ac yn y gorffennol) yn gwneud hynny am lai na phump awr

yr wythnos. Roedd yr arian a enillwyd drwy weithio yn y diwydiant rhyw yn amrywio'n sylweddol. Roedd hanner y rheiny a ymatebodd yn ennill llai na £300 y mis, a dim ond lleiafrif o 13.4% oedd yn ennill dros £1,000 y mis. Roedd y rheiny oedd yn gwneud gwaith rhyw uniongyrchol yn fwy tebygol o wneud hynny ers mwy o amser, am fwy o oriau'r wythnos, ac yn ennill cryn lawer mwy o arian yn ei sgil, o gymharu â'r rheiny oedd yn ymwneud â gwaith rhyw anuniongyrchol.

Holwyd yr ymatebwyr hynny nad oeddynt bellach yn gweithio yn y diwydiant rhyw os oeddynt yn ei chael yn anodd gadael y diwydiant. Mae ffigwr 5 yn dangos i ba raddau roedd yr ymatebwyr yn teimlo ei bod yn hawdd neu'n anodd gadael y diwydiant. Y teimlad cyffredinol oedd ei bod hi'n hawdd, ond bod hynny'n llai tebygol i'r rheiny oedd yn gwneud gwaith rhyw uniongyrchol o gymhau â'r rheiny oedd yn gwneud gwaith rhyw anuniongyrchol.

Reflections from the personal interviews

Mae'r cyfweiliadau personol â myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw yn darparu gwybodaeth fanylach ynglŷn â'r anawsterau a all ddigwydd wrth geisio gadael y diwydiant rhyw. Hyd yn oed i'r rheiny a aeth i mewn i'r diwydiant o'u gwirfodd, nododd rhai ymatebwyr nad oeddynt yn teimlo felly bellach; roedd eraill yn teimlo eu bod yn gaeth i'r bywyd hwn. Roedd y rhesymau am hyn y syml. Er enghraifft, gall 'bod yn weithiwr rhyw' fod yn rhan mor bwysig o'u bywydau, nes ei bod bellach yn anodd dychmygu sefyllfa wahanol. Mae hefyd yn bosib y byddai gweithio yn y diwydiant rhyw yn cau rhai


drysau ac yn cyfyngu ar gyfleoedd yn y dyfodol. Esboniodd ymatebwyr:

- R7-Myfyrwraig, gweithiwr rhyw annibynnol (puteinio): *Mae'n hawdd mynd yn gaeth i'r math yma o waith. Dydw i ddim yn ei hoffi, ond mae rhai o'r manteision yn ei gwneud yn anodd rhoi'r gorau iddo.*


[PMDRh: Beth ydych chi'n teimlo sy'n eich gwneud yn gaeth i'r math yma o waith?] *Er ei fod yn slebogaidd, dwi'n hoffi'r teimlad pan fo dynion yn dod i mewn ychydig yn ddifater ac yn gadael yn hapus. Dwi'n teimlo fy mod i wedi eu helpu mewn rhyw ffordd. Hefyd, dyw'r gwaith ddim wastad yn ddiflas a diysbryd. Dwi'n ei hoffi weithiau. Ac mae'n arian am beidio bod ag unrhyw sgil o fath yn y byd.*

- **[PMDRh: Ydych chi'n teimlo y gallech chi roi'r gorau i hyn pe baech chi eisiau gwneud hynny?]** *Aelod o'r prosiect cysylltu dros-y-we sy'n darparu gwasanaethau gwegamera a phartneru: Dydw i ddim; dwi ddim yn sicr pam. Mae'n gallu eich caethiwo.*

[PMDRh: Ydych chi'n credu y gallech chi esbonio beth rydych yn teimlo sy'n eich caethiwo?] *Wel, dyw cymdeithas ddim yn fy nerbyn ac o'r herwydd dwi'n teimlo wedi fy ynysu. Mae gen i fwllch mawr yn fy hanes cyflogaeth pe bawn i'n ceisio mynd am swydd normal. Dwi'n teimlo'n gyfforddus gyda'r merched eraill.*



Ffigwr 5. Profiadau o adael y diwydiant rhyw yn ôl y math o weithgareddau roedd yr ymatebwyr yn ymwneud â nhw



Figwr 6. A ddylai pobl gael prynu a gwerthu rhyw?

3.3 YMAGWEDDIAD MYFYRWYRTUAG ATY DIWYDIANT RHYW

Mae'n bwysig deall y ffyrdd mae myfyrwyr yn edrych ar y diwydiant rhyw, er mwyn deall y cyd-destun cymdeithasol mae myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw yn gweithio ynddo. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau oedd yn mesur i ba raddau mae myfyrwyr yn credu bod y diwydiant rhyw yn rhan dderbyniol o gymdeithas. Mae Ffigur 6 yn dangos bod tua hanner yr ymatebwyr (49.6%) yn credu y dylai 'oedolion sy'n cydsynio fod yn gallu prynu a gwerthu rhyw.' Roedd chwarter y sampl yn anghytuno â'r gosodiad hwn, ac roedd chwarter arall yn ansicr.


Ar y cyfan, roedd dynion yn fwy parod i dderbyn y sefyllfa hon o gymharu â'r menywod a ymatebodd, gyda 59.1% o ddynion yn cytuno y dylai oedolion sy'n cydsynio gael prynu a gwerthu rhyw; 45% o fenywod oedd o'r farn yma.

Roedd parodrwydd pobl i dderbyn gweithgareddau rhywiol masnachol yn dibynnu ar y math o weithgaredd oedd dan sylw. Mae Ffigur 7 yn dangos mewn mwy o fanylder, fesul gweithgaredd, faint o ymatebwyr oedd yn cytuno ei bod yn ffordd dderbyniol o ennill arian (roedd y cwestiwn ar ffurf; 'a ddylai pobl gael ennill bywoliaeth o [math o weithgaredd]?'). Mae'n dangos bod gwaith rhyw anuniongyrchol (sef gwerthu gwasanaethau rhywiol nad ydynt yn golygu cyfathrach glôs â'r cleient) yn dderbyniol i'r mwyafrif helaeth, ond bod gwerthu gwasanaethau rhwywiol uniongyrchol ('puteinio') yn llai dderbyniol. Roedd yno hefyd deimlad cyffredinol nad oedd swyddi gweinyddol yn y diwydiant yn ffordd dderbyniol o ennill arian.


Adlewyrchiadau o'r cyfweiliadau personol

Mae'r canlyniadau a gyflwynir uchod yn awgrymu bod myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw yn cael eu hunain mewn amgylchedd braidd yn ddigroeso, lle nad oes llawer o gefnogaeth i'w chael gan eu cyd fyfyrwyr. Mae'r myfyrwyr hynny sy'n ymwneud â gwaith rhyw uniongyrchol yn arbennig yn wynebu risg o gael eu colffarnu gan gymdeithas. Mae'r cyfweiliadau personol â myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw yn cadarnhau bod rhagfarn a stigma'n rhan bwysig o'u bywydau. Ond, yn hytrach na derbyn ymagweddiad negyddol cymdeithas tuag at y diwydiant rhyw, roeddynt yn teimlo bod pobl yn anwybodus ac yn rhagfarnllyd. I rai, roedd ofnau ynglŷn â stigma wedi arwain at angen i fod yn gyfrinachol, gan eu bod yn ofni y byddai datgelu eu dull o fyw yn peryglu eu perthynas o ddydd i ddydd â phobl eriall. Roedd ymatebwyr eraill yn derbyn y ffaith nad yw pawb yn cymeradwyo nac yn gefnogol i'w penderfyniad i weithio yn y diwydiant rhyw. Mae rhai enghreifftiau o'r cyfweiliadau'n dangos hyn:


- R7-Myfyrwraig, gweithiwr rhyw annibynnol (puteinio): *Pan fyddaf yn ymweld â'r brifysgol nawr neu pan fyddaf yn mynd allan gyda ffrindiau, maent yn fy ngweld fel person hynod o gŵl sy'n gwneud yr holl bethau cŵl yma. Pe bawn i'n dweud wrthynt fy mod i wedi gweithio yn y diwydiant rhyw, fyddai dim un ohonynt yn fodlon siarad â fi, achos, wel, byth bythoedd...*
- R2-Myfyrwr, wedi actio mewn ffilm porn: *Roedd gan fy ffrindiau syniadau cymysg, y rhan fwyaf ohonyn nhw'n bositif. Fel pe bai'n un peth arall gwallgo' rydw i'n rhoi cynnig arno. Mae'n hwyf, er bod rhai pobl yn dweud "porn ydy e, ac mae'n warthus", ond mae llawer o bobl â rhagfarnau yn erbyn y diwydiant rhyw.*



Ffigwr 7. Pa mor dderbyniol yw gwahanol fathau o weithgareddau sy'n perthyn i'r diwydiant rhyw?



Ffigwr 8. Y deg rheswm pwysicaf dros weithio yn y diwydiant rhyw



Ffigwr 9. Pa mor aml oedd yr ymatebwyr yn teimlo'n ddiogel wrth weithio?

- R8-Myfyrwraig sy'n gweithio fel actores porn: *Dwi'n gallu deall pam bod rhai pobl yn credu ei fod yn ddiraddiol (...) rwyf yn deall pam y byddai rhai pobl yn edrych i lawr amaf oherwydd beth rwyf yn ei wneud (...) ond ar ddiwedd y dydd, mae'n fodd o enill bywoliaeth, sef gwneud y gorau o'r hyn sydd gen i, a gwneud arian o hynny.*

rhyw yn cadarnhau bod rhesymau ariannol ac ymarferol yn bwysig iawn ym mhenderfyniad myfyrwyr i fynd i mewn i'r diwydiant rhyw. Tra bod rhai wedi cyfeirio at y mwynhad a'r cyffro sy'n perthyn i'r gwaith, dywedodd y mwyafrif mai'r angen am arian, a hynny ar frys, oedd y cymhelliant cryfaf Roedd hyn ynghyd â pheidio bod â theulu y gallent ddibynnu arnynt am gefnogaeth a chynhaliaeth. Roedd yr arian a enillwyd drwy weithio yn y diwydiant rhyw yn cael ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer costau byw sylfaenol na ellid talu amdanynt gyda benthygiad i fyfyrwyr.

3.4 CYMHELLIANNAU MYFYRWYR DROS WEITHIOYN Y DIWYDIANT RHYW


Gofynnwyd i fyfyrwyr oedd wedi gweithio yn y diwydiant rhyw i nodi beth oedd eu cymhelliant i wneud y gwaith yma. Mae Ffigwr 8 yn dangos y deg rheswm a nodwyd amlaf (gan gyfeirio at y rheiny oedd yn ymwneud â gwaith rhyw uniongyrchol ac anuniongyrchol yn unig). Mae'r ffigwr yn dangos bod ystyriaethau economaidd ymhlith cymhelliannau cryfaf myfyrwyr i'w hannog i wneud y math yma o waith. Yn llygaid yr ymatebwyr, mae'r arian o'r diwydiant rhyw yn eu galluogi nhw i osgoi dyled a thalu eu costau byw sylfaenol. Hefyd, caiff y gwaith ei ystyried i fod yn hyblyg iawn, ac nad yw hynny mor debygol mewn swyddi traddodiadol. Yn ogystal ag ystyriaethau ymarferol, nododd nifer sylweddol o ymatebwyr ddiddordeb cynhenid mewn gweithio yn y diwydiant rhyw (gyda disgwyliadau o fwynhad a phleser rhywiol). Soniodd 14.3% o'r ymatebwyr am y teimlad o gael eu gorfodi i mewn i waith rhyw, felly nid oedd hwn ymysg y deg rheswm pwysicaf.

Adlewyrchiadau o'r cyfweiliadau personol

Mae'r cyfweiliadau personol gyda myfyrwyr yn y diwydiant

Roedd y rhan fwyaf o'r rheiny a ymatebodd yn cydnabod y gallent fod wedi cael hyd i swydd 'gyffredin' ond roeddynt yn teimlo nad oedd hyn yn ddewis ymarferol iddynt. Esboniodd ymatebwyr y byddai gweithio am yr isafswm cyflog yn golygu gweithio am oriau eithriadol o hir (er mwyn ennill faint o arian oedd ei angen) na fyddai'n gadael digon o amser ar gyfer eu hastudiaethau. Ystyriwyd gweithio yn y diwydiant rhyw i fod yn opsiwn da hefyd oherwydd ei hyblygrwydd. Nid yw gwaith yn y diwydiant rhyw fel arfer yn ddibynnol ar gytundeb ffurfiol, ac felly mae'n hawdd peidio gweithio am gyfnod er mwyn blaenoriaethu gwaith coleg.

- R7-Myfyrwraig a gweithiwr rhyw annibynnol (puteinio): *'Dyw swydd ran-amser dim yn mynd i 'neud y tro... byddai rhaid i mi weithio oriau anhygoel, yn arbennig pan oeddwn i'n 21, a'r isafswm cyflog dim ond yn £4.98 yr awr. 'Dyw hynny ddim yn ymarferol, yn arbennig a finnau'n byw mewn neuaddau, mae nhw mor ddrud. Trueni na fyddai rhywun wedi dweud hynny wrtha i cyn i mi arwyddo cytundebau a phethau felly yn y brifysgol.*
- R1-Myfyrwraig hyn sy'n gweithio i asiantaeth bartneru: *Mae fy ngwaith coleg yn cael blaenoriaeth bob tro.*



Ffigwr 10. Agweddau negyddol o weithio yn y diwydiant rhyw

'Dwi wedi troi gwaith i lawr yn y gorffennol oherwydd dyddiadau cyflwyno gwaith. Neu os oes cais i mi fynd i alw ar gleient yn [enw'r ddinas], roedd yn amhosib yr wythnos o'r blaen oherwydd cyflwyniad roedd rhaid i mi ei wneud. Dywedodd [enw'r rheolwr partneru] 'wyt ti ddim yn gallu gwneud hyn wrth i ti deithio?' bu rhaid i mi ddweud 'na, oherwydd dwi angen y rhyngryd a gwneud gwaith paratoi.'

3.5 MATERION DIOGELWCH AC AGWEDDAU NEGYDDOL O WNEUD GWAITH RHYW

Tra bod y mwyafrif o fyfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw yn teimlo'n ddiogel yn eu gwaith, roedd lleiafrif sylweddol yn teimlo nad oeddynt wastad yn ddiogel. Mae ffigwr 9 yn dangos canlyniadau ar gyfer y cwestiwn 'pa mor aml ydych chi'n teimlo'n ddiogel y eich amgylchedd gwaith?' ar raddfa sy'n amrywio o byth i bob amser. Nododd y mwyafrif o'r rheiny a ymatebodd eu bod yn teimlo'n ddiogel 'yn aml iawn' neu 'bob amser' (75.5% ar gyfer y ddau gategori gyda'i gilydd) Golyga hyn, ar y llaw arall, fod bron i chwarter y myfyrwyr hynny sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw yn tueddu i deimlo nad ydynt yn ddiogel pan fyddant yn gweithio.


Cyflwynwyd yr ymatebwyr â rhestr o 21 agwedd negyddol posib, a gofynnwyd iddynt i osod tic wrth y rheiny oedd yn

berthnasol i'w profiad personol. Mae ffigwr 10 yn dangos y deg agwedd negyddol a nodwyd amlaf. Cyfrinachedd, enillion anghyson a chwsmeriaid annymunol oedd y rhai mwyaf cyffredin. Ofnau ynglŷn â thrais oedd y pedwerydd.

Hefyd gwelwyd rhai gwahaniaethau rhwng y rheiny oedd yn gwneud gwaith rhyw uniongyrchol a gwaith rhyw anuniongyrchol. Nodwyd ofnau ynglŷn â thrais ddwywaith mor aml gan y rheiny oedd yn gwneud gwaith rhyw uniongyrchol (48.5%) o gymharu â'r rheiny oedd yn gwneud gwaith rhyw anuniongyrchol (24.5%). Hefyd nodwyd yr eitem 'mae fy marn am ryw wedi newid' ddwywaith mor aml gan y rheiny oedd yn gwneud gwaith rhyw uniongyrchol (33.7%) o gymharu â'r rheiny oedd yn gwneud gwaith rhyw anuniongyrchol (17.3%). O ran yr agweddau negyddol eraill, nid oedd unrhyw wahaniaethau o ran y math o waith rhyw oedd dan sylw.

Adlewyrchiadau o'r cyfweiliadau personol

Roedd cadw'n ddiogel rhag niwed yn thema barhaus yn ystod y cyfweiliadau personol â myfyrwyr oedd yn gwneud gwaith rhyw. Roedd bron bob un o'r ymatebwyr wedi wynebu rhyw fath o ymosodiad llafar neu gorfforol. Roedd y ffyrdd yr aethant ati i amddiffyn eu hunain yn amrywio yn ôl pa ran o'r diwydiant roeddynt yn gweithio ynddi. Roedd y rheiny oedd yn gweithio'n annibynnol yn ymwybodol iawn o'r peryglon, a byddent yn cymryd mesurau megis bod â chyllell yn eu meddiant neu osod botwm argyfwng. Ystyriwyd fod



Ffigwr 11. Agweddau cadarnhaol gweithio yn y diwydiant rhyw

gweithio mewn parlwr yn fwy diogel na gweithio'n annibynnol. Serch hynny, mae llawer yn dibynnu ar bolisi'r parlwr a'u hymrwymiad i gadw gweithwyr rhyw yn ddiogel. Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos yr agweddau hyn:

- R7- Myfyrwraig sy'n weithiwr rhyw annibynnol (puteinio): *Mae gen i'r syniad yn fy mhen ynglŷn â'r hyn y dylwn ei wneud, a dyna beth sy'n digwydd pan fyddwch chi yma. Ond dwi hefyd yn ymwybodol bod llawer o'r dynion sy'n dod yma ddwywaith fy maint i, a dydw i ddim eisiau eu pechu, achos os dwi'n gwneud hynny, dwi yn y tŷ ar fy mhen fy hun, yn y fflat yma, ac os ydy pethau'n mynd o chwith, does neb yno i fy helpu.*
- Mae un aelod o'r prosiect yn son, dros-y-we, ynglŷn â bod â chylllell yn ei meddiant pan fydd yn cwrdd â chleientiaid yn eu ceir: *Dydw i erioed wedi gorfod ei defnyddio ... a dydw i ddim yn credu y gallwn i mewn gwirionedd, oni bai fy mod i'n meddwl fy mod i'n mynd i farw. Dydw i ond yn cario cylllell ar gyfer argyfwng, ond does gen i ddim bwriad o'i defnyddio. Ydw, dwi hefyd yn sylweddoli y gallai gael ei defnyddio arna i... Felly fuaswn i ddim yn ei defnyddio oni bai fod gen i ddim opsiwn arall, ac y byddai peidio ei defnyddio'n waeth.*

Roedd amodau gwaith yr ymatebwyr, ynghyd â'r berthynas oedd ganddynt â'r cyflogwr, rheolwr a chyd-weithwyr eraill, yn bwysig iawn o ran eu gallu i gadw'n ddiogel. Ond ar yr un pryd, gallai'r amodau gwaith a'r berthynas â chyd-weithwyr fod yn destun gofid a phryder. Er enghraifft, gall yr amodau gwaith eu diraddio gan wneud iddynt deimlo'n ddibarch. Dywedodd

amryw o ymatebwyr eu bod wedi gadael gweithle oherwydd eu bod yn teimlo nad oeddynt yn cael eu trin yn y ffordd roeddynt eisiau cael eu trin. Tra bod yno deimlad cyffredinol bod gweithio mewn parlwr yn ddiogelach, roedd yno hefyd anfanteision amlwg o ran sut y caiff y gwaith ei drefnu a faint o arian mae'r rheolwyr yn ei gymryd. Mae'r dyfyniadau isod yn dangos sut mae trefniant y gwaith ei hun a'r berthynas â'u cydweithwyr yn effeithio ar iechyd a lles yr ymatebwyr.

- R7-Myfyrwraig sy'n gwneud gwaith rhyw annibynnol (puteinio) - mae'n siarad am ei phrofiad blaenorol o weithio mewn parlwr: *Mae parlwr yn llawer diogelach, ond mae parlwr yn fy ngwneud i deimlo'n fwy fel cachu, yn arbennig pan fo dyn ddim yn eich dewis, ac mae rhaid i chi eistedd yn ôl. Achos dwi ddim wedi arfer â hynny. (...) Dydw i ddim wedi arfer â'r busnes o ddynion yn dod i mewn a dewis dynes. Fel yna mae hi go iawn, ac os nad ydw i'n cael fy newis, dwi'n teimlo fel llefain a dweud o duw na! (...) mae fel pe bai rhyw fath o drefn arbennig; hon yw'r ferch sy'n mynd gyntaf a hon sy'n mynd olaf.*
- R6-Myfyrwraig oedd yn gweithio fel dawnsiwr côl: *Mae'r rheolwyr yn cymryd ffioedd ar ran y sefydliad a chomisiwn oddi ar y menywod, ond nid ydynt yn gwneud unrhyw beth i gynnal yr adeilad. A dewud y gwir, roedd y pibellau yn aml wedi malu ac roedd cachu drewllyd yn gollwng o'r clwb, roedd mor wael â hynny. Roedd y nenfwd ar fin disgyn i lawr mae'n debyg, ond 'doedd e ddim yn delio â'r sefyllfa; 'doedd dim sylw o gwbl yn cael ei roi i iechyd a diogelwch. Felly'r math yna o beth oeddwn i'n credu oedd yn cymryd mantais annheg ohonom.*

Roedd yr angen am gyfrinachedd hefyd yn rhywbeth y soniwyd amdano'n aml fel agwedd negyddol o weithio yn y diwydiant rhyw. Oherwydd, roedd rhai o'r ymatebwyr yn arwain 'bywyd dwbl' oedd ynddo'n hun yn peri gofid: ar un llaw gofid ynglŷn â gorfod dweud celwydd drwy'r amser ac ar y llaw arall gofid ynglŷn â chael eich cyfrinach wedi ei 'ddatgelu'. I weithwyr rhyw, nid yw'r bobl sy'n gwybod pwy ydyn nhw go iawn, yn ddelfrydol yn dod ar draws eu persona fel gweithwyr rhyw, a'r ffordd arall o gwmpas.

- R7-Myfyrwraig sy'n weithiwr rhyw annibynnol (puteinio): Dyna yw fy mywyd i gyd bellach, dyna dwi'n credu yw fy mhroblem i, mae wedi troi yn un gyfrinach fawr, ac mae rhaid i mi fod yn ofalus beth dwi'n ddweud; mae rhaid i mi fod yn ofalus ble ydw i. Mae dynion dwi wedi bod gyda nhw wedi fy adnabod, ac wedi dweud yn ddigon diniwed "shwmae Sharon" a dwi wedi bod gyda fy ffrind, un o fy ffrindiau gorau, a hithau'n gofyn "pam mae pobl yn dy alw di'n Sharon o hyd?" (...) Pan fo hyn yn digwydd 3 neu 4 gwaith, mae pobl yn gofyn "beth mae'r ferch yma'n ei wneud?"

3.6 AGWEDDAU CADARNHAOL O WNEUD GWAITH RHYW

Er mwyn mesur agweddau positif gweithio yn y diwydiant rhyw, cyflwynwyd ymatebwyr â rhestr o saith agwedd gadarnhaol, a gofynnwyd iddynt i osod tic wrth yr agweddau hynny oedd yn berthnasol iddyn nhw. Mae ffigwr 11 yn dangos agweddau positif gwneud gwaith rhyw yn nhrefn eu pwysigrwydd. Arian da ac oriau hyblyg oedd yr agweddau positif a nodwyd amlaf, ond roedd pleser rhywiol hefyd yn bwysig i bron hanner y rheiny a ymatebodd.

Ynghyd â hyn, gwelwyd fod y rheiny sy'n gwneud gwaith rhyw uniongyrchol yn fwy tebygol o nodi 'arian da' a 'phleser rhywiol' fel agweddau positif, tra bod y rheiny sy'n gwneud gwaith rhyw anuniongyrchol yn fwy tebygol o nodi 'amodau gwaith' fel agweddau cadarnhaol.

Adlewyrchiadau o'r cyfweiliadau personol

Dangosodd yr arolwg fod agweddau positif gwaith rhyw yn ymwneud yn bennaf â'i hyblygrwydd a chyfleoedd ar gyfer gwneud arian. Cyfeiriodd y cyfweiliadau personol â myfyrwyr oedd yn weithwyr rhyw at agweddau positif ychwanegol, megis mwynhad o wneud y gwaith ei hun, yn ogystal ag effeithiau cadarnhaol ar hunan-werth. Er y gall cyswllt â chleientiaid fod yn beryglus o bosib, gallai hefyd fod yn ffynhonnell o bleser i rai o'r ymatebwyr. Mae'r dyfyniadau isod yn dangos hyn:

- R1-Myfyrwraig hŷn sy'n gweithio i asiantaeth bartneru: *Yn y parhwr, mae gen i gywilydd cyfaddef hyn, ond mae'n £40 am hanner awr. Felly rydych chi'n cael £20 am hanner awr. A gall unrhyw ddyn sydd eisiau rhyw fforddio hynny. Mae'n gwneud i mi fod eisiau chwydu pan fyddaf yn meddwl am y peth, ond gyda'r cleientiaid hyn [gwneud gwaith partneru] oherwydd bod y pris fesul awr gymaint uwch; dydw i ddim yn snobyddlyd, ond dim ond canran fach o ddynion all fforddio hynny. Felly mae eich cleientiaid yn mynd i fod o fath arbennig. Dydw i ddim wedi cael unrhyw broblemau. Mae pawb wedi bod yn hyfryd. Maen nhw'n prynu anrhegion i chi, mae'n wallgof.*
- R4-Myfyrwraig oedd yn gweithio mewn bar bronnoeth, oedd yn darparu gwasanaethau gwegamera ac yn gweithio fel model byw. *Gyda modelu byw, mae pobl yn craffu amoch chi er mwyn cael y manylion, a dwi wrth fy modd, achos dwi'n teimlo fel rhyw fath o dduwies Roegaidd.*

3.7 ANGHENION CYMORTH MYFYRWYR SY'N GWNEUD GWAITH RHYW

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi, o ystod o wasanaethau cymorth i fyfyrwyr, os oedden nhw erioed wedi gwneud defnydd o'r gwasanaethau hyn. Nododd ymatebwyr oedd wedi gweithio yn y diwydiant rhyw eu bod wedi defnyddio gwasanaethau cwnsela yn y brifysgol yn amlach na'r myfyrwyr hynny nad oeddynt yn gweithio yn y diwydiant rhyw. Caiff hyn ei ddangos yn ffigwr 12. O ran mathau eraill o wasanaethau cymorth, megis tai ac iechyd, nid oedd unrhyw wahaniaethau pwysig rhwng y ddau grŵp yma o fyfyrwyr.

Holwyd yr ymatebwyr oedd yn gweithio yn y diwydiant rhyw os oedden nhw erioed wedi cysylltu â gwasanaeth proffesiynol mewn cysylltiad â'u gwaith. Tra bod hanner y rheiny sy'n gwneud gwaith rhyw uniongyrchol yn dweud eu bod wedi gwneud hynny, dim ond chwarter y rheiny sy'n gwneud gwaith rhyw anuniongyrchol ddywedodd hynny (gweler ffigwr 13) Nid oedd unrhyw wahaniaeth rhwng dynion a menywod oedd yn gwneud gwaith rhyw.

Y cymorth proffesiynol a ddefnyddiwyd fwyaf oedd clinig iechyd rhywiol (lleol) (27.8%), yr ail fwyaf poblogaidd oedd meddyg teulu, nyrs neu wasanaeth ysbyty (10.9%) ac yn drydydd, clinig iechyd rhywiol yn y brifysgol (5.6%). Ynghyd â chymorth proffesiynol, nododd tuag un o bob pump o'r ymatebwyr (19.7%) eu bod wedi troi at ffrindiau i drafod eu gwaith, ond ychydig iawn a geisiodd gymorth gan eu rhieni (dim ond 2.1% soniodd am hyn).



Figwr 12. **Cyfran o fyfyrwyr a ddefnyddiodd wasanaethau cwnsela'r Brifysgol**

Gofynnwyd i ymatebwyr os oeddynt angen mwy o gefnogaeth, ac os oedden nhw, pa fath o gefnogaeth fyddai orau ganddynt. Mynegwyd yr angen am gefnogaeth fwy gan y rheiny sy'n gwneud gwaith rhyw uniongyrchol, o gymharu â'r garfan o fyfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw anuniongyrchol (fel y gwelir yn ffigwr 14).

Ymhlith y rheiny a fynegodd angen am fwy o gefnogaeth, gwasanaethau a gwybodaeth ar-lein oedd y math mwyaf poblogaidd o ddarpariaeth gwasanaethau yr hoffent ei chael; nodwyd hyn gan 21.0% o'r ymatebwyr 'gwasanaethau iechyd' oedd yr ail fwyaf poblogaidd (a nodwyd gan 17.7%) a daeth 'gweithwyr estyn allan' yn drydydd (13.3%).

Adlewyrchiadau o'r cyfweiliadau personol

Trafodwyd yr angen am gefnogaeth yn bennaf drwy sgysiaid dros-y-we, ac roedd hwn yn arf a ddatblygwyd yn benodol i ddarparu myfyrwyr yn y diwydiant rhyw â chefnogaeth anhysbys ar-lein. Hefyd nodwyd fod y fforwm ar wefan y prosiect yn ddefnyddiol o ran canfod cefnogaeth ymhlith gweithwyr rhyw eraill, yn ogystal â meithrin y teimlad nad ydynt 'ar eu pen eu hunain'. Mae'r enghreifftiau isod o sgysiaid o'r fath drwy'r gwasanaeth gwe-gyrhaeddiad:

- Aelod o'r prosiect: Mae'n fywyd unig iawn, a dyna pam fy mod i'r hoffi'r fforymau, achos mae yno fechgyn a merched eraill i siarad â nhw, a hyd yn oed os nad ydw i'n ymateb, a fy mod i'n darllen beth maen nhw'n ei ddweud a'u bod nhw'n cael amser anodd, o leiaf dwi'n gwybod nad ydw i'r unig berson yn y DU sydd yn y sefyllfa yma.
- Aelod o'r prosiect: Dwi'n ei chael yn ddefnyddiol dros ben [y fforwm ar wefan y prosiect] achos dwi'n teimlo na fyddai unrhyw un yn fy mywyd go iawn yn deall, a byddai'r rhan fwyaf o fy frindiau'n meddwl fy mod i'n


afiach ac yn atgas pe bawn i'n dweud wrthyn nhw beth dwi'n 'neud. (...) Dwi'n falch fod y fforwm wedi cael ei sefydlu achos dwi'n credu bod yno angen am rywle lle gall pobl siarad ynglŷn â phethau na fyddent yn siarad amdanynt fel arfer.

3.8 CRYNODEB O GANFYDDIADAU ALLWEDDOL


Mae'r diwydiant rhyw yn bresennol ym mywydau myfyrwyr ledled y DU, er bod y rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw yn gwneud hynny'n achlysurol ac am gyfnodau byr yn unig. Gall gwaith rhyw fod yn ddatrysiad cyflym, dros-dro, i broblem ariannol, ond gellir hefyd ei weld fel rhywbeth sydd yn gyffrous a phleserus. Mae'r her fwyaf i fyfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw yn ymwneud ag ymdrin â stigmatiddio a rheoli cyfrinachedd. Mae diogelwch ac ymdrin â chleientiaid annymunol hefyd yn agweddau negyddol o'r gwaith, tra bod cleientiaid da yn rheswm pwysig dros hoffi'r gwaith. Mae myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw uniongyrchol angen cefnogaeth arbenigol.

Dyma'r canfyddiadau allweddol:

- Mae bron i 5% o fyfyrwyr wedi ymwneud â gweithred rywiol fasnachol ar rwy adeg neu'i gilydd.
- Mae un o bob pump o fyfyrwyr wedi ystyried gwneud hyn.
- Mae myfyrwyr sy'n ddyinion yn fwy tebygol o fod wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd rywiol am arian o gymharu â myfyrwragedd.
- Nid yw myfyrwyr sy'n ymwneud â gwaith rhyw yn gwneud hynny'n rheolaidd, mae'r symiau o arian a



Ffigwr 13. Canran o weithwyr rhyw sydd wedi cysylltu â phroffesiynwyr mewn cysylltiad â'u gwaith



Ffigwr 14. Canran o weithwyr rhyw a fynegodd angen am gefnogaeth

gaiff eu hennill yn debygol o fod yn isel, ac mae'r arian yma'n debygol o gael ei wario ar gostau byw o ddydd-i-ddydd.

- Mae'r rheiny sy'n gwneud gwaith rhyw uniongyrchol yn gwneud hynny'n fwy rheolaidd, ac yn creu mwy o incwm o gymharu â'r rheiny sy'n gwneud gwaith rhyw anuniongyrchol.
- Mae cymhelliannau myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw yn ymwneud yn bennaf â'r angen i ennill arian mewn ffordd hyblyg y gellir ei chyfuno ag astudiaethau prifysgol. Serch hynny, mae carfan sylweddol o fyfyrwyr yn gwneud hyn oherwydd eu bod yn rhagweld y bydd yn rhoi pleser iddynt.
- Nid yw un o bob pedair o fyfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw

wastad yn teimlo'n ddiogel wrth weithio, ac mae'r ffigwr yma'n uwch ar gyfer y rheiny sy'n gwneud gwaith rhyw uniongyrchol.

- Mae myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw yn ofni cael eu stigmatiddio, a'r agwedd negyddol bwysicaf sy'n perthyn i wneud gwaith rhyw yw'r angen i gadw ymgysylltiad yr unigolyn yn y diwydiant yn gyfrinachol.
- Mae cyfran sylweddol o fyfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw wedi cysylltu â gwasanaethau cymorth ynglŷn â'u gwaith, ac mae grŵp llai wedi cyfeirio at yr angen am fwy o gefnogaeth; byddai gwasanaethau ar-lein yn arbennig o ddefnyddiol.

Mae'r neges hon ar fforwm aelodau'r prosiect yn enghraifft dda o bwysigrwydd defnyddio canlyniadau ymchwil yn ofalus, gan osgoi gormod o gyffredinoli, a pharchu'r hunaniaeth pob myfyriwr sy'n gwneud gwaith rhyw:

“*Dydw i ddim yn hoffi pan fydd pobl yn disgrifio gweithwyr rhyw fel pe bai nhw'n gwybod y gwir amdanynt. Does yno mo'r fath beth â'r 'gwir'... mae gwir pawb yn mynd i fod yn wahanol... gallwch chwilio a thyrchu, ond ar ddiwedd y dydd, y cwbl fyddwch chi'n ei ganfod yw carfan o bobl sydd â straeon gwahanol, a ffyrdd gwahanol o edrych ar y straeon hynny. Mae rhai yn hoffi'r gwaith, eraill ddim, mae rhai'n ansicr, mae rhai'n ei wneud am gyffuriau, neu am arian; mae rhai'n gwneud y gwaith yma achos eu bod nhw wrth eu bodd. Weithiau mae'n gyfuniad o'r pethau hyn a mwy, mae rhai'n cael eu gorfodi, mae eraill yn dewis gwneud hyn; mae rhai'n cael eu gorfodi ac yna'n ei ddewis. Mae rhai'n ei gasáu, mae'n rhoi grym i eraill, ac mae rhai yn mynd o'r naill begwn i'r llall... fe allwn fynd ymlaen.*”

4 | CANFYDDIADAU AR AMCAN 2 YR YMCHWIL: YMATEBION ADDYSG UWCH A CHANFYDDIADAU STAFF

Mae'r adran hon yn trafod y canfyddiadau o ran ail amcan yr ymchwil, ystyried yr angen am bolisi, arweiniad a hyfforddiant i annog y ddarpariaeth o gymorth addas ar gyfer myfyrwyr yn y diwydiant rhyw.

4.1 POLISIÂU ADDYSG UWCH A MYFYRWYR SY'N GWNEUD GWAITH RHYW

Fel y trafodir yn yr adran fethodoleg, cafwyd eglurhad ynglŷn â pholisiau AU parthed myfyrwyr yn y diwydiant rhyw drwy anfon Cais Rhyddid Gwybodaeth i bob prifysgol yng Nghymru.

Yn gyntaf, **nid oes gan yr un brifysgol yng Nghymru bolisi penodol parthed myfyrwyr yn y diwydiant rhyw.**

Cyfeiriodd pedair prifysgol at eu polisi o gynnig cefnogaeth wedi ei theilwra'n benodol ar gyfer yr unigolyn, ynghyd â darparu mynediad cyfartal i wasanaethau iechyd a lles sy'n bodoli eisoes. Cyfeiriwyd hefyd at y berthynas weithio sydd mewn lle â gwasanaethau cefnogaeth y tu allan i'r brifysgol. Nododd un brifysgol nad oes angen am bolisi, gan nad yw myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw 'yn fater gwerth son amdano' (dyfyniad) yn y brifysgol.

Yn ail, **nid oes gan brifysgolion brosesau ffurfiol penodol mewn lle y gall staff eu dilyn pe bai myfyrwyr yn datgelu eu bod yn gweithio yn y diwydiant rhyw.**

Soniodd chwe phrifysgol y byddent yn gweithredu'n briodol, yn dibynnu ar anghenion y myfyriwr, gan nodi bod prosesau ffurfiol ar gyfer cyfeirio-ymlaen at wasanaethau sy'n bodoli eisoes (e.e. ariannol, iechyd rhywiol neu gwrsela). Mewn un brifysgol, roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant ar y pwnc ac roeddynt yn cydweithredu â 'Chymorth i Fenywod'. Cyfyngodd un brifysgol ei hymateb i ddarparu dolen i ganolfan gymorth i fyfyrwyr y brifysgol, gan awgrymu y byddai'r protocol arferol ar gyfer y ddarpariaeth o wasanaethau'n gwneud y tro.


Yn drydydd, **nid oes gan brifysgolion weithdrefnau mewn lle pe baent yn darganfod bod myfyriwr yn gweithio yn y diwydiant rhyw.** Unwaith eto, byddai'r rhan fwyaf o brifysgolion yn trin achos o'r fath yn debyg i unrhyw sefyllfa arall, sy'n golygu y byddent yn cymryd ymagweddiad personol ac yn gweithredu'n briodol (e.e. edrych ar gyfleoedd ar gyfer cymorth ariannol neu gefnogaeth emosiynol). Cyfeiriodd un brifysgol at gydweithredu â'r

heddlu a chanolfan argyfwng treisio, gan awgrymu bod myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw yn cael eu dehongli'n bennaf yn nhermau ymosodiad rhywiol. Dywedodd dwy brifysgol y byddent yn gweithredu yn erbyn y myfyriwr rhag ofn y byddai enw da'r brifysgol mewn peryg, yn arbennig os byddai ymddygiad y myfyriwr yn arwain at ryw fath o 'ymchwiliad gan yr heddlu'. Soniwyd hefyd y gellid cynnal 'ymchwiliad addasrwydd i ymarfer' rhag ofn y byddai'r cwrs a astudir yn cael ei achredu gan gorff proffesiynol. Cyfyngodd un brifysgol ei hymateb i ddarparu dolen i bolisi'r brifysgol ar ymddygiad myfyrwyr a disgyblaeth.

4.2 DEALLTWRIAETH STAFF O'R GYFRAITH A RHEOLIADAU

Mynegodd dros draean o'r ymatebwyr a gymerodd ran yn yr astudiaeth o achos (arolwg ar-lein ymysg staff mewn un brifysgol) y farn y byddai canfyddiad o gyfreithlondeb unrhyw weithgaredd yn effeithio ar sut y byddent yn ymateb i'r myfyriwr (36.8%) yn ogystal â'r hyn y byddent yn ei wneud yn nhermau dilyn hyn i fyny (42.6%).

Holwyd yr ymatebwyr ynglŷn â chyfres o weithgareddau sy'n perthyn i'r diwydiant rhyw; oedden nhw'n credu bod y gweithgaredd hwnnw'n gyfreithlon neu'n anghyfreithlon? Mae ffigwr 15 yn dangos, ar gyfer pob gweithgaredd, y canran o ymatebwyr oedd yn credu eu bod yn gyfreithlon. Roedd y rhan fwyaf yn gwybod bod gwerthu rhyw ar y stryd yn anghyfreithlon, tra bod pawb yn gwybod bod dawnsio dinoethi'n gyfreithlon. Roedd llai o sicrwydd ynglŷn â chyfreithlondeb gwerthu rhyw mewn lle preifat (e.e. fflat sy'n eiddo i unigolyn). Er bod gwerthu rhyw mewn lle preifat yn gyfreithlon, roedd llai na 30% o'r rheiny a ymatebodd yn credu hynny. Mae gwerthu rhyw drwy wegamera ar-lein hefyd yn weithgaredd cyfreithlon, ond nid oedd yr ymatebwyr i gyd yn gwybod hynny. Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr hefyd yn teimlo bod gwerthu rhyw mewn puteindy'n weithgaredd anghyfreithlon, er nad yw; cadw puteindy sy'n anghyfreithlon.



Ffigwr 15. **Canfyddiadau o gyfreithlondeb gwahanol weithgareddau sy'n perthyn i'r diwydiant rhyw** (1) (2)

(1) Mae 'gwerthu rhyw mewn lle preifat - A' yn cyfeirio at weithiwr rhyw annibynnol sy'n gwerthu rhyw mewn tŷ neu fflat... tra bod 'gwerthu rhyw mewn lle preifat - B' yn cyfeirio at yr un sefyllfa ond bod yno o leiaf un person arall yn gwerthu gwasanaethau dan yr un to.

(2) Mae'r canlynol yn weithgareddau anghyfreithlon: Gwerthu rhyw ar y stryd; Gwerthu rhyw mewn lle preifat - B; Rhedeg puteindy; Cynorthwyo mewn rhedeg puteindy.

4.3 MYFYRWYR YN DATGELU EU HYMGYSYLLTIAD Â'R DIWYDIANT RHYW

O'r 106 aelod staff a gyfranogodd yn yr astudiaeth o achos mewn prifysgol - oedd mewn swyddi a olygai cyswllt uniongyrchol â myfyrwyr - nododd 12.3% (13 o ymatebwyr) eu bod wedi cael o leiaf un myfyriwr yn datgelu ymgysylltiad â'r diwydiant rhyw iddynt. Y math mwyaf cyffredin o weithgareddau a ddatgelwyd oedd dawnsio erotig, sy'n cynnwys dawnsio polyn a dawnsio cŵl (7 myfyriwr). Roedd mathau eraill o weithgareddau y cyfeiriwyd atynt yn cynnwys puteinio a gwerthu gwasanaethau rhywiol mewn parlwr tylino, puteindy neu sauna (4 myfyriwr), partneru (3 myfyriwr), dinoethi (2 fyfyrwr), modelu cyfareddol (4 myfyriwr), bod yn fwtler noeth (2 fyfyrwr), bod yn ddominyddwr neu ymstyngwr proffesiynol (1 myfyriwr), gweithredu fel derbynydd mewn puteindy, sauna neu barlwr tylino (1 myfyriwr), a gyrrwr i weithwyr rhyw (1 myfyriwr). Yn ogystal â'r rheiny a ddatgelodd eu cyfranogiad, soniodd amryw o aelodau staff fod ganddynt 'amheuan' ynglŷn â myfyrwyr parthed eu hymgysylltiad â'r diwydiant rhyw.

Hefyd yn ystod y cyfweiliadau personol â staff prifysgolion, cyfeiriwyd at y ffaith y bu amheuan ynglŷn ag ymgysylltiad

ambell fyfyrwr. Roedd rhai aelodau staff yn bryderus y gallai'r posibilrwydd o stigmatiddio atal myfyrwyr rhag datgelu hyn iddynt. Er enghraifft, roedd pryder y gallai myfyrwyr deimlo na allent ddatgelu hyn i wasanaeth cymorth rhag ofn i hynny fynd yn wybodaeth gyffredinol ar eu record academaidd. Mae'r dyfyniadau isod yn dangos enghreifftiau o hyn:

- Pennaeth Cymorth i Fyfirwyr: *Rydym wedi gweld sawl achos, wrth edrych drwy ddatganiadau banc ac edrych ar variant ac incwm, lle nad yw'r rhain yn cyfateb... rydych chi'n dod i gasgliad mae'n debyg, ac yn dechrau amau.*
- Pennaeth Cymorth i Fyfirwyr: *Mae ein datganiad o fwrriad yn canolbwyntio ar y ffaith nad ydym yn eich beirniadu pan fyddwch yn dod yma. Mae'r gwasanaeth wedi ei ganoli ar fyfirwyr, felly dydyn ni ddim yn mynd i feirniadu beth y gall y myfyriwr fod yn ei wneud... Y broblem yw bod myfyrwyr yn gofidio fod popeth y byddant yn ei ddweud wrthyh yn mynd i gael ei gynnwys ar eu record academaidd, sy'n ddogfen ddychmygol sydd ddim yn bodoli mewn gwirionedd. Does yno ddim ffordd y gallai hynny ddigwydd."*

4.4 YMWBYYDDIAETH O ANGHENION MYFYRWYR SY'N GWNEUD GWAITH RHYW

4.4.1 Ymwybyddiaeth o anghenion myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw a gwasanaethau cymorth priodol

Cadarnhaodd pump allan o'r tri-ar-ddeg o ymatebwyr o'r astudiaeth o achos mewn prifysgol oedd wedi cael myfyriwr yn datgelu eu hymgysylltiad, nad oeddynt yn gwybod ble i fynd am gymorth nac arweiniad. Hefyd dangosodd y cyfweiliadau personol â staff cymorth i fyfyrwyr a swyddogion Undeb y Myfyrwyr nad oedd y ddarpariaeth o wasanaeth ar gyfer myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw yn rhywbeth roeddynt wedi rhoi llawer o ystyriaeth iddo. Roedd tuedd i gredu mai'r prif angen o ran cefnogaeth y byddai'r myfyrwyr hyn ei angen fyddai cyngor ar iechyd rhywiol a diogelwch yn gyffredinol. Roedd amryw o'r ymatebwyr hefyd o'r farn y byddai cefnogaeth emosiynol ac o ran lles yn allweddol yn yr achos hwn. Ar y cyfan, awgrymodd staff y byddent yn dilyn ymagweddiad ar sail yr unigolyn a chyfeirio'r myfyriwr at y gwasanaeth cymorth mwyaf priodol. Fel mae'r dyfyniadau isod yn dangos, roedd y rhan fwyaf yn teimlo y gallai anghenion myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw amrywio'n sylweddol, gan ddibynnu ar amgylchiadau unigol a'r cyd-destun unigol.

- Pennaeth Cymorth i Fyfyriwr: *Byddai yno daith y byddem eisiau i'r myfyriwr fynd arni, o ran mynd ati i gyflwyno ei stori, y materion sydd wrth wraidd y sefyllfa a sut i fynd ati i'w datrys. Gall y ffactorau hyn fod yn niferus... Ariannol, emosiynol, cyfreithiol, beth bynnag. Mae'r gwasanaethau hyn rydym yn eu darparu yn seiliedig ar ymdrin â phobl fel unigolion a chanfod pecyn cefnogaeth ar eu cyfer sy'n cynnwys datrysiad sy'n gweithio iddyn nhw fel unigolion.*
- Swyddog Undeb Myfyrwyr: *Gallant fod yn berffaith iawn, mae'n dibynnu ar eu rhesymau dros fynd i mewn i'r busnes. Gall cefnogaeth emosiynol, neu ddim ond rhywun i siarad â nhw fod yn bwysig, dwi'n meddwl. Achos mae'n bosib nad ydyn nhw'n siarad ag unrhyw un ynglŷn â'r sefyllfa, felly mae cael man cyfrinachol lle maent yn gwybod nad yw eu hanes yn mynd i fynd yn ôl at unrhyw un yn wirioneddol bwysig.*

4.4.2 Ymatebion i ddatgelu gan fyfyrwyr

Dangosodd yr astudiaeth o achos mewn prifysgol a chyfweiliadau personol bod myfyrwyr oedd yn datgelu eu hymgysylltiad â'r diwydiant rhyw yn cael eu trin mewn ffyrdd tra gwahanol, o ymagweddiad 'gwneud dim byd' i roi rhybudd oni fyddai'r myfyrwyr yn ymatal, y byddai'n wynebu rhyw fath o weithred ddisgyblu. Hefyd cynigiwyd cyngor ymarferol ar iechyd rhywiol a chwrsela, ac mewn rhai achosion, cyfeiriwyd unigolion at wasanaethau cymorth i fyfyrwyr, clinig GUM a'r Prosiect Cyffuriau. Mae'r dyfyniadau


isod yn dangos mathau gwahanol iawn o ymateb. Mae'r ddau ymateb cyntaf yn dangos mai'r pryder pennaf yw enw da'r brifysgol a'r proffesiwn mae'r myfyriwr wedi ei ddewis, tra bo'r ddau olaf yn rhoi sylw penodol i les y myfyriwr.

- Astudiaeth o Achos mewn Prifysgol (ateb i gwestiwn penagored yn yr arolwg): *Roeddwn yn bryderus gan fod y myfyriwr yn hyfforddi i fod yn broffesiynwr ym maes gofal iechyd, ac roedd yn ymddangos fod yma wrthdaro o ran buddiannau rhwng yr angen am arian a bod yn fodel rôl ar gyfer cymdeithas. Yn dilyn trafodaethau ynglŷn â hyn gyda'r myfyriwr a gydag aelodau staff eraill yn y coleg, penderfynodd y myfyriwr roi'r gorau i'r gwaith yma.*
- Astudiaeth o Achos mewn Prifysgol (ateb i gwestiwn penagored yn yr arolwg): *Rhoddwyd cyngor i'r fyfyrwraig y gallai modelu ar gyfer tynnu lluniau wrth wisgo fawr ddim beri risg iddi a niweidio enw da'r brifysgol a'r proffesiwn roedd hi'n cael ei hyfforddi ar ei gyfer. Fe'i cynghorwyd pe bai hi'n parhau i osod lluniau ar Facebook, fod rhaid iddi beidio ychwanegu unrhyw beth a allai ei chysylltu â'r brifysgol na'r proffesiwn y dewisodd hi.*
- Astudiaeth o Achos mewn Prifysgol (ateb i gwestiwn penagored yn yr arolwg): *Rhoddais fy manylion cysylltu personol yn y gwaith iddi, fel na fyddai rhaid iddi orfod ymdrin â nifer o aelodau staff ynglŷn â'i sefyllfa.*
- Pennaeth Cymorth i Fyfyriwr: *Cawsom sgwrs o amgylch 'wyt ti'n wirioneddol eisiau gwneud hyn? Wyt ti'n gwneud hyn dim ond oherwydd yr ochr ariannol, neu ydy hyn yn rhywbeth rwy'ti eisiau ei wneud? Sut wyt ti'n cadw dy hun yn ddiogel? Pwy sy'n gwybod dy fod ti'n gwneud hyn?' Felly roeddem ni'n trafod diogelwch a pham ei bod hi'n gwneud hyn, ac oedd yno unrhyw ddewisiadau amgen gan ei fod yn ymwneud ag arian yn unig.*

4.5 CANFYDDIADAU O'R ANGEN AM BOLISI, ARWEINIAD A HYFFORDDIANT

4.5.1 Angen am bolisi, gwybodaeth a chefnogaeth

Holwyd y rheiny a ymatebodd i'r astudiaeth o achos mewn prifysgol beth fydden nhw ei angen pe bai myfyriwr yn datgelu ymgysylltiad â'r diwydiant rhyw. Mae'r ffigwr isod yn dangos faint o ymatebwyr oedd yn teimlo y byddai gwahanol fathau o wybodaeth a chefnogaeth yn ddefnyddiol. Nododd y mwyafrif o staff y byddent yn chwilio am bolisi neu ganllawiau gan y brifysgol ar y pwnc. O gofio bod gan brifysgolion bolisiau parthed gwahanol agweddau o fywyd yn y sefydliad, gan gynnwys cyflogaeth tu allan i astudio, byddai hyn yn



Ffigur 16. **Beth fyddai ei angen mewn achos o ddatgelu?**

ymddangos i fod yn lle synhwyrol i ddechrau wrth fynd ati i ymateb i fyfyrwr sy'n datgelu ymgysylltiad â'r diwydiant rhyw. Fel y trafodwyd eisoes, serch hynny, nid oes gan unrhyw brifysgol yng Nghymru ar hyn o bryd (a hyd y gwyddwn yn y DU) bolisi ar fyfyrwr sy'n gwneud gwaith rhyw. Dim ond lleiafrif o staff nododd nad oeddynt angen unrhyw wybodaeth neu gefnogaeth bellach.

Hefyd trafodwyd yr angen am bolisi gan y brifysgol o amgylch myfyrwr yn y diwydiant rhyw yn y cyfweiliadau personol â staff y brifysgol. Fel y gwelir yn y dyfyniadau isod, roedd gwahanol farn ynglŷn â beth ddylai polisi o'r fath ei gynnwys, ac i ba raddau y byddai polisi penodol ar gyfer myfyrwr sy'n gwneud gwaith rhyw yn ddefnyddiol. Roedd teimlad y byddai polisi'n ddefnyddiol yn bennaf yn nhermau bod a chanllawiau mewn lle, ond na ddylai'r polisi ei hun fod yn rhy fanwl na chyfyngedig.

- Swyddog Undeb y Myfyrwr: *Pe bai myfyrwr yn dod ataf i am gyngor ar aflonyddu, neu at eu tiwtor personol neu rywun yn undeb y myfyrwr; heb bolisi neu arweiniad, byddech yn y tywyllwch.*
- Swyddog Undeb y Myfyrwr: *Dwi'n credu ei bod hi'n sefyllfa sydd ddim yn codi'n aml iawn, ond byddai'n ddefnyddiol dros ben gwybod beth i'w wneud yn y sefyllfa honno, neu y gallech ganfod beth i'w wneud yn gyflym mewn sefyllfa o'r fath. Mae gan unrhyw un sy'n wynebu datgeliad o'r fath amrediad o ymatebion posib, yn arbennig oherwydd yr agwedd foesegol. Mae'r hyn y byddwch yn ei ddweud wrth y myfyrwr hwnnw [ar ddatgelu] yn bwysig; gwnewch yn sicr nad yw'n "mae hynny'n gywilyddus!", allwch chi ddychmygu?*
- Cwnselydd myfyrwr: *Dydw i ddim yn hoffi polisi,*


mae'n well gen i ganllawiau oherwydd dwi'n hoffi dod i fy nghasgliadau fy hun. Mae polisiau'n rhy gyfyngedig.

- Pennaeth gwasanaethau cwnsela: *Rwyf yn teimlo y dylai fod yno bolisiau sylweddol a chadarn yn perthyn i'r maes hwn. Ni ddylai fod gennym bolisi ar gyfer popeth, dylai fod yn gynnwysedig.*

4.5.2 Angen am arweiniad a hyfforddiant

Tra gall polisi addysg uwch fynd rywffaint o'r ffordd tuag at arwain myfyrwr o ran eu hymateb i fyfyrwr yn y diwydiant rhyw - dyma beth fyddai orau gan y mwyafrif o'r ymatebwyr - hefyd trafodwyd effeithiolrwydd canllawiau a hyfforddiant mwy ymarferol a chadarn. Dangosodd y data o'r astudiaeth o achos mewn prifysgol fod traean o'r ymatebwyr (37.2%) yn teimlo y byddent yn elwa o ganllawiau neu hyfforddiant penodol ynglŷn â'r mater hwn. Nododd 17% pellach y byddent yn fodlon ymgymryd â hyfforddiant o'r fath pe bai myfyrwr yn datgelu eu bod yn ymwneud â'r diwydiant rhyw, neu pe baent yn dod yn ymwybodol fod hyn yn sefyllfa gyffredin. Mae hyn yn peri rhywfaint o bryder oherwydd yn ddelfrydol, byddai staff yn gwybod beth i'w wneud yn syth pan wneir y datgeliad, nid mynd ati i ganfod atebion yn ddiweddarach. Gellir disgwyl y byddai rhai o'r rheiny a atebodd 'na' i hyfforddiant ac arweiniad yn ystyried y mater yn wahanol pe baent yn sylweddoli bod ymgysylltiad myfyrwr â'r diwydiant rhyw yn fwy cyffredin na'u canfyddiad nhw o'r sefyllfa.

Er mwyn cael gwell dealltwriaeth ynglŷn â sut beth ddylai'r hyfforddiant neu arweiniad yma fod, gofynnwyd i ymatebwyr nodi, o blith pedwar math o fenter, pa rai fydden nhw'n eu cael yn ddefnyddiol (holwyd y cwestiwn yma i'r rheiny a



Ffigur 17. Pa fath o hyfforddiant neu arweiniad fyddai'n ddefnyddiol?

nododd eu bod yn credu y byddai hyfforddiant neu arweiniad yn angenrheidiol yn unig). Mae'r canlyniadau sydd i'w gweld yn ffigur 17 yn dangos mai 'arweiniad ar-lein' oedd yr opsiwn a ddewiswyd amlaf, gyda hyfforddiant (byr) wyneb-yn-wyneb y dewis nesaf o ran poblogrwydd. Byddai hyfforddiant dwysach yn gofyn am ddysgu sylweddol, ond gan y byddai'n golygu mwy o ymrwymiad o ran amser, dyma'r opsiwn lleiaf poblogaidd.

Mae'r dyfyniadau isod, a ddeilliodd o'r cyfweiliadau â staff y brifysgol, yn dangos ymhellach sut y credir bod i arweiniad a hyfforddiant yn y sefydliad AU y potensial i gael effaith gadarnhaol ar sut y gall staff ymateb i'r sefyllfaoedd hyn.

- Pennaeth Cymorth i Fyfirwyr: *Ymwybyddiaeth yw popeth, os nad ydych chi'n gwybod, sut allwch chi eu helpu? Beth mae gwaith rhyw'n ei olygu? Pa fath o gefnogaeth maen nhw'n debygol o fod ei angen? Fydech chi'n eu pechu pe baech yn gofyn, 'pam wyt ti'n gwneud hyn?'*
- Pennaeth Cymorth i Fyfirwyr: *Dydw i ddim yn gallu addo y bydd pob aelod staff yn ymateb yn yr un ffordd, a hynny'n fordd gywir, ond mae'n sicr y dylent fod yn gwybod ynglŷn â pheidio bod yn feiriadol, a chanolbwyntio ar anghenion y myfyrwr.*
- Cyngorydd ariannol: *Rydym wedi cael hyfforddiant ardderchog ynglŷn â'r gefnogaeth sydd ar gael yn lleol i fyfirwyr sydd wedi dioddef ymosodiad rhywiol, a llwyddodd hyn, ymysg yr holl adran, i godi'r mater, a daethom yn fwy ymwybodol ac yn fwy cyfforddus wrth ei drafod ymysg ein gilydd. Roedden ni'n fwy hyderus ynglŷn â gwybod beth i'w wneud pe bai rhywun yn dod drwy'r drws neu pe baem yn derbyn galwad ffôn, a hyd yn oed ymdrin yn gyffredinol â myfyrwyr sy'n datgelu rhywbeth i ni. Felly o gofio'r math o ymateb a gafwyd i hyn, a'r ymateb cadarnhaol ymhlith y staff yn ei gylch, yna does dim amheuaeth na fyddai hyn yn ddefnyddiol dros ben.*

4.6 CRYNODEB O GANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Yn yr adran hon, trafodwyd y ffyrdd y gall sefydliadau AU ymdrin â myfyrwyr sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw drwy ganolbwyntio ar bolisiau AU parthed y mater, yn ogystal ag ar brofiadau, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff y brifysgol. Gellir dod i'r casgliad bod yno angen am godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth ynglŷn â myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw, ynghyd â chynnig cymorth a chefnogaeth pan fo myfyrwyr yn datgelu eu swyddi yn y diwydiant rhyw. Yn arbennig o gofio fod rôl llawer o aelodau staff mewn prifysgolion yn cynnwys gofal bugeiliol o fyfirwyr, gellid ystyried bod ymwybyddiaeth o fyfirwyr sy'n gwneud gwaith rhyw yn fater pwysig.

Daeth y canfyddiadau allweddol canlynol i'r amlwg:

- Nid yw prifysgolion yn cynnwys myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw yn benodol yn eu polisiau.
- Mae gweithwyr rhyw weithiau'n datgelu eu gweithgareddau i staff academaidd mewn sefydliadau addysg uwch.
- Mae rhai aelodau staff yn bryderus ynglŷn ag enw da'r brifysgol a phroffesiynoldeb.
- Nid yw staff yn ymwybodol, neu maent yn ansicr, ynglŷn â'r gefnogaeth sydd ar gael.
- Nid yw staff yn ymwybodol, neu maent yn ansicr, ynglŷn â pha agweddau o waith rhyw sy'n gyfreithlon neu'n anghyfreithlon, tra gallai eu canfyddiadau o anghyfreithlondeb effeithio ar sut y bu iddynt ddilyn i fyny achos o ddatgelu.
- Mae'r mwyafrif o staff eisiau polisi gan y brifysgol neu ganllawiau - ar-lein fyddai orau - sy'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r gyfraith a gwasanaethau sydd ar gael.
- Roedd lleiafrif sylweddol o'r staff eisiau hyfforddiant ar y mater, tra bod eraill eisiau i hyfforddiant fod ar gael fel a phan fyddai ei angen.

Mae aelod o'r prosiect yn adlewyrchu ar beth mae'r Prosiect Myfyrwyr yn y Diwydiant Rhyw wedi ei olygu iddi hi:

“*Pan fydda i'n meddwl am y Prosiect Myfyrwyr yn y Diwydiant Rhyw, bydda i'n cael teimlad o ollyngdod. Gollyngdod dwi'n dal i'w deimlo dair blynedd yn ddiweddarach. Gollyngdod y bydda i'n ei deimlo am byth, mae'n debyg. Mae hwn yn ddatganiad dewr i'w wneud, ond mae'n wir. Cyn i mi ddechrau siarad â'r prosiect roeddwn i wedi fy ynysu'n llwyr. Doedd neb yn gwybod beth oeddwn i'n ei wneud. Roedd gen i gymaint o gywilydd, ac roedd y cwrs roeddwn i'n ei astudio'n golygu nad oedd yn bosib i mi gael unrhyw gefnogaeth. Cyn i mi siarad â'r prosiect roedd pethau'n anodd arna i. Roeddwn i'n cael problemau o ran diogelwch yn arbennig. Gyda chymorth y prosiect, llwyddais i roi terfyn ar y gamdriniaeth roeddwn i wedi ei dioddef gan gleient ers dros flwyddyn. Dydw i ddim hyd yn oed eisiau meddwl ble y buaswn i nawr pe na fyddwn i wedi gallu troi atyn nhw. Dydw i ddim yn gwybod ble arall y gallwn i fod wedi mynd. Dydw i ddim yn gwybod beth fyddai wedi digwydd.*

Ac nid dim ond fy niogelwch sydd wedi gwella. Gallu siarad â phobl sy'n gwybod eich bod chi'n butain, ond sy'n dal i'ch trin fel person normal. Roedd hynny'n beth mawr i mi. Thiemlais i erioed fod nhw'n fy meirniadu, a phrin yw'r dyddiau pan nad ydw i'n meddwl am y parch y cefais i. Teimlais fod fy llais yn bwysig. Bod y bobl y prosiect yn gwranddo arna i a'r hyn roeddwn i'n ei ddweud. Ddywedodd neb wrtho i am roi'r gorau iddi, na cheisio dweud wrtha i beth i wneud. Fi oedd yn gwneud y penderfyniadau. Mae hynny'n rhoi cymaint o hyder i mi, yn arbennig pan fo fy ngwaith yn aml yn fy ngwneud i deimlo'n isel.

Mae'r prosiect wedi fy helpu i leihau rhywfaint ar y stigma sy'n perthyn i waith rhyw. Yn sicr mae stigma'n cymryd amser hir i gilio, ond mae'r prosiect wedi helpu i greu sgwrs yn fy mhrifysgol. Mae'r sgwrs honno'n creu ymwybyddiaeth, ac mae ymwybyddiaeth yn creu mwy o ddealltwriaeth. Mae'n deimlad gwych.

Rwy'n gobeithio y bydd rhywun y cymryd sylw o ganlyniadau'r prosiect. Rwy'n gobeithio y bydd gan brifysgolion fwy o ymwybyddiaeth tuag at waith rhyw o ganlyniad i hyn. Gobeithio y bydd y prosiect hwn yn newid pethau. Gobeithio y bydd yn creu ymwybyddiaeth. Gobeithio y bydd yn creu ymwybyddiaeth bod rhai myfyrwyr yn gwneud gwaith rhyw, pa bynnag fath o waith rhyw yw hwnnw, ac nid yw'r myfyrwyr hynny'n haeddu cael eu hallgau rhag cael cefnogaeth oherwydd stigma.

Feddyliais i erioed y byddai anfon e-bost at y prosiect yn gallu newid pethau gymaint. Ond mae wedi, a nawr galla i ymdopi'n well. ”

5.1 NID YW GWAITH RHYWYN SWYDD SY'N GYFYNGEDIG I UN RHYWEDD

Er bod ymchwil ar raddfa fach wedi awgrymu ers peth amser bod rhai myfyrwyr yn ymwneud â'r diwydiant rhyw, mae ein data'n cadarnhau hyn. Felly, mae'n bwysig bod gwasanaethau myfyrwyr mewn sefydliadau Addysg Bellach (AU) yn ogystal â chyrrff iechyd cyhoeddus ledled Cymru'n cydnabod hyn.

Mae'r ymchwil, serch hynny, yn mynd gryn lawer pellach na dim ond nodi bod cyfran o boblogaeth ein myfyrwyr yn gwneud gwaith rhyw. Un o'r canfyddiadau allweddol yw'r ffaith fod nifer o ddynion yn ymwneud â'r diwydiant rhyw. Yn wir, dywedodd 5.0% o'r myfyrwyr oedd yn ddynion a gymerodd ran yn ein harolwg eang ar-lein eu bod naill ai yn, neu wedi, gweithio yn y diwydiant rhyw; 3.4% oedd y canran o fyfyrwragedd a nododd hyn.

Mae'r canfyddiadau hefyd yn cyd-fynd â rhai'r prosiect 'Ymchwil i Waith Rhyw yng Nghymru a gynhaliwyd gan Sagar a Jones mewn partneriaeth â Gibran UK rhwng 2010 a 2014, a nododd fod dros 40% o'r holl weithwyr rhyw oedd yn hysbysebu gwasanaethau drwy'r rhyngwrdd yng Nghymru'n ddynion neu'n drawsryweddol (Sagar et al. 2014)

Mae hyn yn codi cwestiynau ynglŷn â pholisi ac arferiad yn Lloegr a Chymru, y DU a'r tu hwnt sy'n awgrymu bod gwaith rhyw yn alwedigaeth sy'n gyfyngedig o ran rhywedd, ac sydd o'r herwydd yn ceisio datblygu gwasanaethau sydd i raddau helaeth wedi eu teilwra ar gyfer gweithwyr sy'n fenywod. Mae academyddion ers blynnyddoedd lawer wedi amlinellu peryglon ymagweddiad yn seiliedig ar rywedd tuag at waith rhyw, ynghyd â'r peryglon sy'n deillio o hynny, megis stereoteipio (gweler er enghraifft, Whowell 2010). Mae'n hanfodol bwysig bod holl ddarparwyr gwasanaethau ledled Cymru'n ymwybodol o weithwyr rhyw sy'n fenywod, yn ddynion ac yn drawsryweddol, ac nad yw gweithwyr gwryw a thrawsryweddol yn dioddef yn sgil bylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau.

5.2 MAE MWY I WAITH RHYW NAG UN PROFIAID

Mae'r data a gasglwyd yn ei gwneud yn berffaith eglur bod gan fyfyrwyr wahanol gymhelliannau dros ymgymryd â gwahanol swyddi yn y diwydiant rhyw, a thra byddant

yn gyflogedig yn y diwydiant hwnnw, maent hefyd yn cael gwahanol brofiadau.

I'r mwyafrif o fyfyrwyr, mae gwaith rhyw yn waith rhan-amser am gyfnodau byr. Gellir ymgymryd â gwaith rhyw ar yr un pryd ag astudio - mae rhai'n cael yr oriau yn hyblyg ac felly'n eu galluogi i astudio ar adegau eraill. A thra bod y mwyafrif o fyfyrwyr yn cael eu gorfodi i wneud hyn oherwydd pwysedd ariannol, mae rhai myfyrwyr yn mynd i mewn i'r diwydiant oherwydd eu bod yn awyddus i ganfod mwy. Mae eraill yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau er pleser.

I grynhoi, nid oes patrwm gosod i ymgysylltiad â'r diwydiant rhyw, ac nid oes mo'r fath beth ag 'un' profiad. Yr hyn mae'r data'n ei awgrymu, serch hynny, yw'r ffaith bod y mwyafrif o fyfyrwyr sy'n gweithio yn y diwydiant yn rhannu'r awydd i ennill arian er mwyn talu costau byw o ddydd i ddydd.

Mae'r data hefyd yn ei gwneud yn eglur, i nifer sylweddol o fyfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw, eu bod yn mynd i mewn i'r diwydiant hwn i gynorthwyo gyda ffioedd AU a/ neu osgoi/lleihau dyledion cynyddol. Felly, cyn belled a bo disgwyl i fyfyrwyr gyfrannu symiau uchel o arian tuag at gost eu haddysg, ac o ystyried costau byw cynyddol myfyrwyr, mae'n annhebygol y bydd y nifer o fyfyrwyr sy'n troi at waith rhyw yn lleihau.

5.3 MAE MYFYRWYR SY'N GWEITHIO YN Y DIWYDIANT RHYWYN CAEL MYNEDIAD I WASANAETHAU CYMORTH

Dylai sefydliadau AU sicrhau, o gofio cymhlethdodau gwaith rhyw, eu bod yn ymwybodol o'r amryfal faterion sy'n gysylltiedig â'r swyddi hyn yn y diwydiant rhyw, a bod y gefnogaeth briodol ar gael.

Mae cydnabod y gwahanol gymhelliannau ac anghenion myfyrwyr sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw yn bwysig iawn, ac mae'n gwneud yr angen am godi ymwybyddiaeth ynglŷn â pheryglon stereoteipio ymhlith llunwyr polisi a darparwyr gwasanaethau'n fater o bwys.

Ni ddylid cymryd yn ganiataol bod pob myfyrwr sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw yn cael profiadau sy'n effeithio'n negyddol ar eu lles a/neu eu hastudiaethau.

Serch hynny, mae'r data'n awgrymu bod myfyrwyr sy'n ymgymryd â gwaith rhyw yn fwy tebygol o geisio cymorth gan y gwasanaethau cwnsela na myfyrwyr sydd ddim yn ymgymryd â gwaith o'r fath. Felly, ac yn bwysig iawn, o gofio y gall gweithwyr rhyw deimlo'n ynysig o fewn cymdeithas (oherwydd stigma ac yn sgil hynny'r awydd i gadw gwaith rhyw yn gyfrinach) mae'n hanfodol bwysig bod gwasanaethau'n estyn allan at fyfyrwyr sy'n datgelu eu hymgysylltiad â'r diwydiant rhyw heb unrhyw ragfarn.

Mae felly'n galonogol canfod bod gwasanaethau AU yn awyddus i ddarparu gwasanaeth anfeiriadol. Serch hynny, mae data hefyd yn awgrymu bod yno angen am godi ymwybyddiaeth, arweiniad a hyfforddiant, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gwbl gymwys i gwrdd ag anghenion myfyrwyr sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw.

5.4 MAE DIOGELWCHYN FATER O OFID I RAI GWEITHWYR RHYW

Mae'r data'n awgrymu'n eglur, er mai ychydig iawn o bobl gaiff eu gorfodi gan eraill i fynd i mewn i'r diwydiant rhyw, fod hyn yn parhau i fod yn broblem i rai gweithwyr rhyw. Yn ogystal â hyn, mae'r data'n cadarnhau bod rhai gweithwyr rhyw yn gofidio am eu diogelwch.

Tra bod rhai ymchwilwyr academiaidd wedi cyflawni cryn lawer o ran sicrhau gwell amodau gwaith i ddawnsywyr mewn clybiau dawnsio côl (Sanders a Hardy 2013), gellir dadlau nad yw polisi ac arferiad yn y DU yn rhoi sylw digonol i gadw gweithwyr rhyw yn ddiogel (boed yn fenywod, dynion neu'n drawsryweddol) tra byddant yn ymgymryd â gwaith yn y diwydiant rhyw (gweler er enghraifft, Kinnell 2008; Whowell 2010; Sagar a Jones, 2014).

Ynghyd â hyn, tra bod ymchwil yn awgrymu bod y rheiny sy'n gweithio oddi ar y stryd yn wynebu llai o risg o ran trais (er enghraifft, Church et al. 2001; Sanders a Campbell 2007; Sagar a Jones 2014), mae trais yn digwydd oddi ar y stryd, ac yn y cyd-destun hwn, mae'r rheiny sy'n gweithio'n annibynnol (ar eu pen eu hunain) yn wynebu risg arbennig.

Yn ystod cyfnod y prosiect, datgelodd aelodau o'r prosiect achosion o drais i dîm y prosiect, gan gynnwys bygythiadau llafar, ymosodiadau corfforol a rhywiol, gan gynnwys treisio. O'r herwydd, mae angen i wasanaethau a sefydliadau fod yn ymwybodol y gall weithiau fod angen darparu llety i fyfyrwyr mewn sefyllfa o'r fath, yn ogystal â dilyn protocol ac arferiad cyfredol sydd mewn lle ar gyfer unrhyw fyfyrwyr sy'n dioddef ymosodiadau corfforol a rhywiol.

Yng nghyd-destun penodol gwaith rhyw, mae gweithdrefnau wedi eu sefydlu ar gyfer reportio trais sy'n gysylltiedig â gwaith rhyw drwy gynllun cenedlaethol Ugly Mugs. Mae angen i staff prifysgolion fod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn, a gweithio gyda myfyrwyr sydd wedi dioddef trais, er mwyn cynnig cefnogaeth iddynt a'u hannog i reportio digwyddiadau o'r fath.

5.5 MAE MYFYRWYR SY'N GWEITHIO YN Y DIWYDIANT RHYWYN WYNEBU STIGMA A RHAGFARN O FEWN CYMDEITHAS

"Rwyf wastad wedi cael cefnogaeth enfawr gan fy nheulu i gyd; gwelais y gwrthwynebiad mwyaf gan Undeb y Myfyrwyr yn fy mhrifysgol fy hun... Cysylltodd rhywun â fi i ddechrau gan ddweud nad oeddynt eisiau i mi gael fy nghysylltu â'r brifysgol (roedd papur-newydd cenedlaethol wedi cynnwys stori arnaf i'n astudio yn y brifysgol).

Ychydig wythnosau'n ddiweddarach, roeddwn i mewn cylchgrawn, ac unwaith eto, dyfynnwyd y brifysgol yn uniongyrchol. Cysylltodd Swyddog y Menywod â fi gan ddweud y byddai'n fy reportio i'r Deon pe bawn i'n parhau i ddweud pa brifysgol oeddwn i'n astudio ynddi. Daeth hyn yn dipyn o sioc i mi wrth reswm; roeddwn i wedi bod yn ofnus ynglŷn â rhoi gwybod i fy athrawon, ond daeth yn sioc canfod y byddai cyd-fyfyriwr yn fodlon peryglu fy lle yn y sefydliad yn fwriadol." - Tina - Aelod o'r prosiect sy'n gweithio fel model cyfareddol.

Mae'n drist meddwl bod rhai sefydliadau AU ac ystod eang o broffesiynau'n stigmatiddio ac yn barnu myfyrwyr sydd efallai gwneud penderfyniad rhesymegol i ymgymryd â swyddi yn y diwydiant rhyw i gynnal eu hunain. Yn wir, gellir dadlau bod barnu myfyriwr am weithio yn y diwydiant rhyw, am ba bynnag resymau, yn hen ffasiwn, yn arbennig o gofio'r tueddiad i brif-ffrydio (normaleiddio) llawer o swyddi yn y diwydiant rhyw, megis dawnsio côl (Brents a Sanders 2010).

Dylid cofio hefyd bod y mwyafrif o'r myfyrwyr a gyfranogodd yn y prosiect yn ymwneud â swyddi cyfreithlon yn y diwydiant rhyw. Serch hynny, os yw swyddi'n gyfreithlon neu'n anghyfreithlon, mae stigma'n perthyn iddynt oll. Gall y stigma hwn arwain at ganlyniadau difrifol i fyfyrwyr sy'n astudio neu'n derbyn hyfforddiant ar gyfer mynediad i ystod eang o feysydd proffesiynol.

Fel mae'r data yn yr adroddiad hwn yn dangos, mae sefydliadau AU yn parhau i fod yn bryderus ynglŷn â swyddi myfyrwyr yn y diwydiant rhyw, ynghyd ag unrhyw ymddygiad a allai gael ei ystyried i ddwyn anfri ar y brifysgol. Yn yr un

modd, mae amryw o broffesiynau'n dal i weithredu rheolau arferion proffesiynol, a allai olygu bod myfyriwr sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw yn cael ei ystyried yn 'anaddas i ymarfer'.

Mae Canllawiau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar Ymddygiad Proffesiynol, er enghraifft, yn mynnu bod rhaid i fyfyrwyr nid yn unig feddu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r iechyd da i ymdopi â dyletswyddau nyrsio a bydwreigiaeth yn ddiogel ac yn effeithiol, ond hefyd bod gan y myfyriwr 'gymeriad da'. Caiff myfywrwyr eu hatgoffa yng nghymal 53: *'...gall eich ymddygiad o fewn a thu allan y brifysgol a'ch lleoliad gwaith clinigol, gan gynnwys eich bywyd personol, effeithio ar eich cymhwyster i ymarfer a'ch gallu i gwblhau eich rhaglen'*. Ynghyd â hyn, mae cymal 54 yn mynnu bod myfywrwyr yn *'cynnal enw da'r proffesiwn o'ch dewis bob amser'*.

Yr eironi mawr yma, wrth gwrs, yw'r ffaith bod ymchwil wedi canfod cysylltiadau ers blynyddoedd lawer rhwng gwaith rhyw a'r proffesiynau gofalu (Sanders 2005). Hefyd, mae tystiolaeth gweithwyr rhyw yn awgrymu bod gweithwyr rhyw weithiau'n gweld eu hunain fel addysgwyr iechyd rhywiol a chwrselwyr therapiwtig (Sanders 2006). Mae yno hefyd barodrydd cynyddol i dderbyn gweithwyr rhyw sy'n gweithio'n benodol â chleientiaid anabl (gweler er enghraifft, TLC 2008).

Efallai mai'r paradocs mwyaf yng nghyd-destun y proffesiwn nyrsio yw bod Coleg Brenhinol Nyrsio (RCN) yn gefnogol i gamau sy'n sicrhau nad yw gwaith rhyw bellach yn drosedd (h.y. diddymu cyfreithiau sy'n gwneud trosedd o werthu rhyw) ac mae wedi cymryd y safbwynt hwn ers 1995 (The Guardian 2005). Yn ôl yn 1995 aeth y Coleg ati i ddwyn sylw at yr angen i gael gwared ar y stigma, y cywilydd a'r rhagfarnau sy'n perthyn i weithwyr rhyw - amodau cymdeithasol sy'n atal y gweithwyr hyn rhag cael mynediad i wasanaethau iechyd (The Independent 1995).

Credwn na ddylai datgelu gwaith rhyw arwain yn awtomatig at anoddefgarwch cymdeithasol, ac na ddylid cymryd yn ganiataol y byddai hynny'n effeithio'n negyddol ar broffesiynoldeb (gweler hefyd, Cusick et al. 2009) a hoffem nodi fan yma'r anghyfiawnder sy'n perthyn i labelu ymddygiad moesol 'da' ac ymddygiad anfoesol 'drwg' at ddibenion asesu os yw unigolyn yn addas i ymarfer.

Un o'r testunau a drafodwyd yn helaeth ar fforwm aelodau'r prosiect oedd ofnau ynglŷn â chael HDRh/HIV a rhwystrau i gael profion am y rhain. Mae'r ddau ddyfyniad yma'n enghreifftiau o brofiadau aelodau'r prosiect.

“ Rwyf wedi cael rhyw heb amddiffyniad â nifer o gleientiaid, ddim o ddewis gan amlaf oherwydd bod ambell dwpsyn yn meddwl ei bod yn hwyl tynnu'r condom i ffwrdd, ond hefyd o ddewis am fwy o arian. I fod yn onest, does dim ots gen i, yr unig beth ydy, rwyf yn gwybod os ydw i byth eisiau bod mewn perthynas, yna mae angen i mi wybod fy mod i'n lân. Ond a bod yn onest, dydw i byth yn gweld hynny'n digwydd, achos dwi ddim yn gweld sut y byddai unrhyw un eisiau bod gyda rhywun sy'n fudr neu wedi ei heintio. Fuaswn i ddim yn gallu dweud celwydd chwaith, byddai rhaid i mi ddweud wrthyn nhw. Felly dim gobaith. Mae hyn yn uffernol o ddigalon.

Roedd y cynghorydd iechyd yn iawn mae'n debyg, ond llwyddodd rhywbeth a ddwedodd hi fy nghytruaddo, rhywbeth fel 'beth wnaeth i ti feddwl mai bod yn weithiwr rhyw oedd beth oeddet ti eisiau wneud â dy fywyd?' - a hynny mewn llais sarcastig, Yr ast. Haha. Fe anwybyddais i hi. Ond yn y bôn, beth oedd diben holi cwestiwn o'r fath? Dwi'n gwrthod credu mai dim ond ceisio sicrhau nad oeddwn i mewn sefyllfa fregus oedd y cynghorydd iechyd... Dwi'n gwybod beth ddwedodd hi a thôn ei llais pan ddwedodd hi hynny, ac roedd yn eithriadol o faleisus/barnllyd. Rwyf yn gobeithio nad oedd ei hymateb yn nodweddiadol o bawb yn y proffesiwn, ond dydw i byth yn mynd i siarad â hi eto, nac unrhyw gynghorydd iechyd arall. Fe gadwaf at feddygon a nyrsys diolch yn fawr... dwi erioed wedi cael problem gyda nhw. A doedd hi ddim fel pe bai'r cynghorydd iechyd yn gallu dweud unrhyw beth wrtho i nad oeddwn i'n gwybod eisoes... Dydw i ddim yn dwp wyddoch chi. ”

6 | ARGYMHELLION ALLWEDDOL

1. Rhaid i sefydliadau AU gydnabod bod yno fyfyrwyr sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw. Heb gydnabyddiaeth o'r fath, ni ellir gwneud unrhyw ymdrech i fynd i'r afael ag anghenion myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw.
2. Mae angen herio'r stereoteipiau a'r camddealltwriaeth parthed myfyrwyr sy'n weithwyr rhyw, yn arbennig mewn sefydliadau AU. Mae hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r materion canlynol:
 - Gall myfyrwyr sy'n ddynion, yn fenywod neu'n drawsryweddol fod yn ymwneud â'r diwydiant rhyw;
 - Mae cymhelliannau, yn ogystal â phrofiadau, myfyrwyr sy'n ymwneud â gwaith rhyw yn amrywio'n eang;
 - Mae llawer o'r gweithgareddau sy'n perthyn i'r diwydiant rhyw yn gyfreithlon;
 - Gall rhai myfyrwyr yn y diwydiant rhyw fod angen cymorth a chefnogaeth, ond nid pawb ohonynt;
 - Mae amodau gweithio, trais a chyfrinachedd yn faterion o bryder mawr i fyfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw.
3. Dylai sefydliadau AU ei gwneud yn amlwg eu bod yn cymryd safbwynt sydd ddim yn allgau myfyrwyr sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw. Gall y brifysgol chwarae rôl bwysig mewn amddiffyn myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw rhag cael eu stigmatiddio ac wynebu camwahaniaethu, yn yr un ffordd ag y byddant yn mynd ati i amddiffyn myfyrwyr o grwpiau lleiafrifol. Fel yma, gall sefydliadau AU fod yn fannau cynhwysol a diogel i fyfyrwyr oll.
4. Dylai sefydliadau AU gydbwysu ofnau yngl n ag amddiffyn eu henw da â risg o gamwahaniaethu yn erbyn y myfyrwyr hyn. Efallai ei bod yn bryd i broffesiynau ail-ystyried beth mewn gwirionedd yw 'model rôl dda' ar gyfer cymdeithas; yn arbennig o ystyried bod y diwydiant rhyw yn cael ei normaleiddio fwyfwy mewn cymdeithas.
5. Dylai Undebau Myfyrwyr ddarparu cefnogaeth nad yw'n rhagfarnlyd i'w myfyrwyr beth bynnag fo'u statws fel gweithwyr rhyw, a bod yn eiriol ar eu rhan parthed eu hawliau a'u hanghenion. Dylent weithio gyda sefydliadau AU i'w hamddiffyn rhag y stigmatiddio maent ar hyn o bryd yn ei wynebu gan y gymuned academaidd a'u cyd-fyfyrwyr.
6. Mae caledi ariannol yn u'n o'r prif gymhelliannau dros annog myfyrwyr i fynd i mewn i'r diwydiant rhyw. Mae angen gwneud ymdrech barhaus i ganfod y myfyrwyr hynny sy'n methu cael y gynhaliath ariannol maent ei hangen o fewn y protocol gweinyddol presennol.
7. Gall myfyrwyr sydd angen incwm rheolaidd ei chael yn anodd canfod swydd sy'n caniatáu iddynt ennill digon o arian ac sydd hefyd yn hyblyg. Gellid beirniadu'r system gyfredol lle caiff gweithwyr ifanc eu talu ar raddfa is na'u cydweithwyr hyn am fanteisio'n annheg ar eu llafur. O'r herwydd, pan fo myfyrwyr yn dewis ymgymryd â swyddi sy'n talu'n well yn y diwydiant rhyw, ni ddylid eu beirniadu.
8. Mae angen i staff AU deimlo'n hyderus wrth ymdrin ag unrhyw fyfyrwr sy'n datgelu eu hymgysylltiad â'r diwydiant rhyw. I gyflawni hyn, mae angen arweiniad a hyfforddiant, gan roi sylw arbennig i'r canlynol:
 - Yr amrywiaeth o swyddi o fewn y diwydiant rhyw;
 - Cyfreithlondeb gwaith rhyw;
 - Stereoteipio a stigma;
 - Anghenion myfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw;
 - Amddiffyniad yn erbyn camwahaniaethu a'r gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr;
 - Protocol priodol rhag ofn i fyfyrwr gael profiad o drais rhywiol neu ymosodiad.
9. Mae angen mabwysiadu ymagweddiad wedi ei chydlynu ar lefel prifysgol sy'n cynnwys:
 - Argaeledd hyfforddiant ar gyfer staff academaidd, staff ategol a chynrychiolwyr Undebau Myfyrwyr;
 - Sicrhau bod llety ar gael i fyfyrwyr sydd angen cymorth ar frys mewn achosion o argyfwng;
 - Cydweithrediad â'r heddlu lle bo angen hynny;
 - Gosod o leiaf un person ym mhob sefydliad AU sy'n wybodus ym maes materion gwaith rhyw, sy'n gallu darparu cyngor a chynorthwyo myfyrwyr, lle bo hynny'n briodol, i reportio digwyddiadau o drais drwy gynllun reportio cenedlaethol Ugly Mugs.
10. Mae angen gwneud mwy o ymdrech i estyn allan at fyfyrwyr sy'n gwneud gwaith rhyw drwy sianelau ar-lein, a chynnig i'r rheiny sy'n gweithio yn y diwydiant yr arfau i'w galluogi i gyfathrebu â'i gilydd.

CYFEIRNODAU

Andrews, B. and Wilding, J. M. (2004) 'The Relation of Depression and Anxiety to Life-Stress and Achievement in Students', *British Journal of Psychology*, 95: 508-521.

Brents, B. and Sanders, T. (2010) 'The Mainstreaming of the Sex industry: Economic Inclusion and Social Ambivalence', *Journal of Law and Society*, 37 (1): 40-60.

Church, S., Henderson, M., Barnard, M. and Hart, G. (2001) 'Violence by Clients towards Female Prostitutes in Different Work Settings: Questionnaire Survey', *British Medical Journal*, 322 (7285): 524-525.

Cusick, L. Roberts, R. and Paton, S. (2009) 'Higher and Further Education Institution Policies on Student and Staff Involvement in Commercial Sex', *Journal of Higher Education Policy and Management*, 31 (2): 185-195.

Kinnell, H. (2008) *Violence and Sex Work in Britain*. Cullompton: Willan.

National Union of Students (2004) 'Values for Money: NUS Survey of Student Finance and Attitudes to Money Management', National Union of Students.

Nursing and Midwifery Council, *Guidance on Professional Conduct for Nursing and Midwifery*. Available at: <http://www.nmc-uk.org/Documents/Guidance/Guidance-on-professional-conduct-for-nursing-and-midwifery-studentsSeptember-2010.PDF>

O'Neill, M. (2001) *Prostitution and Feminism: Towards a Politics of Feeling*. Maiden, USA: Blackwell Publishers Inc.

O'Neill, M. (2007) 'Community Safety, Rights and Recognition: Towards A Coordinated Prostitution Strategy?', *Community Safety Journal*, 6 (1): 45-52.

Roberts, R., Bergstrom, S. and La Rooy, D. (2007) 'Sex Work and Students: An Exploratory Study', *Journal of Further and Higher Education*, 31 (4): 323-324.

Roberts, R. and Zelenyanski, C. (2002) 'Degrees of Debt', in N. Stanley, and J. Manthorpe (Eds) *Student Mental Health Needs: Problems and Responses*. London: Jessica Kingsley Publishers Ltd.

Sagar, T. and Jones, D. (2014) 'Off-street Sex Workers and Victim-Orientated Policymaking at the Local Level: Denial of Agency and Consequences of Victimhood', *Crime Prevention and Community Safety*, 16 (4): 230-252.

Sagar, T., Jones, E., Jones, D. and Clark L. (2014) 'Sex Work Research Wales (2010-2014): Summary of Findings' Available at: <http://www.clinks.org/clinks-light-lunch-issue-367-7th-november-2014>

Sagar, T., Jones, D. and Clark, P. (2011) 'Off Street Sex Work in Cardiff: Identifying Service Provision Needs' (Unpublished).

Sanders, T. (2006) 'Female Sex Workers as Health Educators with Men who Buy Sex: Utilising Narratives of Rationalisations', *Social Science and Medicine*, 62 (10): 2434-2444.

Sanders, T. and Campbell, R. (2007) 'Designing Out Violence, Building in Respect: Violence, Safety and Sex Work Policy', *British Journal of Sociology*, 58 (1): 1-18.

Sanders, T. and Hardy, K. (2013) 'Students Selling Sex: Marketisation, Higher Education and Consumption', *British Journal of Sociology of Education* [published online].

The Guardian (2005) 'Decriminalise Prostitution, Nurses Urge'. Available at: <http://www.theguardian.com/society/2005/apr/27/health.crime>

The Independent (1995) 'Nurses Vote for Scrapping Laws on Prostitution'. Available at: <http://www.independent.co.uk/news/uk/nurses-vote-for-scrapping-laws-on-prostitution-1620127.html>

TLC Trust (2008) 'Connecting Disabled Men and Women to Responsible Services'. Available at: <http://www.tlc-trust.org.uk/advice/page6.html>

van der Meulen, E. (2011) 'Action Research with Sex Workers: Dismantling Barriers and Building Bridges', *Action Research*, 9 (4): 370-384.

Weitzer, R. (2010) *Sex For Sale (2nd edition): Prostitution, Pornography and the Sex Industry*. London: Routledge.

Whowell, M. (2010) 'Male Sex Work: Exploring Regulation in England and Wales', *Journal of Law and Society*, 37 (1): 125-144.



PROSIECT

**myfyrwyr yn y
diwydiant rhyw**